# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** | **CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD LLUN, 7 MEHEFIN 2021 am 1.00 y. p.** | **MONDAY, 7 JUNE, 2021 at 1:00 p.m.** |
| **CYFARFOD RHITHIOL WEDI'I FFRYDIO'N FYW** | **VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING** |
| **Swyddog Pwyllgor** **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

John Griffith, Dylan Rees *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Alun Roberts, Margaret M. Roberts
Nicola Roberts

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Richard Griffiths, Richard O. Jones

**PLAID LAFUR CYMRU/ WALES LABOUR PARTY**

J. Arwel Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)*(Cadeirydd/Chair)*
Bryan Owen

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor- Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 14)

Cyflwyno cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol –

- 26 Mawrth, 2021 (galw i mewn)
- 23 Ebrill, 2021
- 18 Mai, 2021 (ethol Cadeirydd/Is-Gadeirydd)

**3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 4 2020/21** (Tudalennau 15 - 30)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Trawsnewid.

**4 ADRODDIAD CYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI CYLLID**

Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid i roi adroddiad llafar.

**5 EFFAITH COVID AR WASANAETHAU DIGARTREFEDD** (Tudalennau 31 - 52)

Cyflwyno adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai.

**6 BLAEN RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 53 - 58)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir galw i mewn a gynhaliwyd ar 26 Fawrth, 2021

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Richard O. Jones, Bryan Owen, Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts<br><br>Aelodau Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig) Mr Dyfed Wyn Jones (Llywodraethwr – Sector Cynradd)<br><br>**Llofnodwyr Cais Galw i Mewn sydd ddim yn aelodau'r Pwyllgor**<br><br>Cynghorwyr Kenneth Hughes, R. Llewelyn Jones, Peter Rogers.<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorydd Llinos Medi Huws (Arweinydd)<br>Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant)<br>R. G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo)<br>Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol)<br>Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Prif Weithredwr<br>Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff a Gwasanaethau Eiddo<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglen a Pherfformiad<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgorau (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Robat Idris Davies (ar ran Ysgol Talwrn a'r gymuned), Swyddog Sgriwtini (SR), Mr Gareth Williams (Newyddiadurwr Democratiaeth Leol) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd i ystyried y cais galw i mewn ac fe amlinellodd y modd y byddai busnes y cyfarfod yn cael ei gynnal.

## 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gwnaed y datganiadau o ddiddordeb canlynol -

Datganodd y Cynghorydd Nicola Roberts ddiddordeb personol ond nid un a oedd yn rhagfarnu ynghylch eitem 2 ar yr agenda fel aelod o gyrff llywodraethu Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.

Datganodd Mr Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/ Swyddog Adran 151 ddiddordeb personol ond nid un a oedd yn rhagfarnu ynghylch eitem 2 ar yr agenda am fod ei dad-yng-nghyfraith yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Talwrn.

## 2 GALW PENDERFYNIAD I MEWN: ADRODDIAD GWRTHWYNEBIAD - MODERNEIDDIO YSGOLION ARDAL LLANGEFNI, YSGOL TALWRN AC YSGOL Y GRAIG

Cyflwynwyd cais galw i mewn gan Gynghorwyr Bran Owen, R. Llewelyn Jones, Kenneth Hughes, Peter Rogers ac Aled Morris Jones ynghylch penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed o Fawrth, 2021 ynglŷn â'r Adroddiad Gwrthwynebiad o ran Moderneiddio Ysgolion yn ardal Llangefni gan gyfeirio at Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig, *sef cymeradwyo'r cynnig gwreiddiol, sef i gynyddu capasiti Ysgol y Graig er mwyn darparu ar gyfer Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu ardaloedd dalgylch Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.* Cyflwynwyd Rhybudd Penderfyniad y Pwyllgor Gwaith, cais galw i mewn, a'r adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar y 15fed o Fawrth, 2021 gan gynnwys yr Adroddiad Gwrthwynebiad.

Eglurodd Cynghorydd Bryan Owen fel y Prif Aelod Galw i Mewn, y rhesymau am alw i mewn y penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith ar y 15fed o Fawrth 2021 fel y nodwyd yn y ffurflen gais galw i mewn sydd fel a ganlyn -

- Mae'r pendefyniad yn cael ei frysio yn ystod pandemig
- Mae'r cyhoedd yn teimlo nad ydynt wedi cael gwrandawiad teg a'r *cwestiwn allweddol a'i cynigwyd yw*
- Pryder am werth am arian

Dywedodd y Cynghorydd Bryan Owen ei fod yn gwneud y cais galw i mewn ar ran rhieni a Chorff Llywodraethu Ysgol Talwrn sydd yn bryderus am ddyfodol eu cymuned pe bai'r cynnig i gau ysgol y pentref yn cael ei gadarnhau. Cyfeiriodd at yr ysgol fel calon bywyd cymunedol a chymunedau gwledig gan ddarparu'r sylfaen i dwf a ffyniant yr iaith Gymraeg. O ganlyniad dylai fod pob ymdrech yn cael ei wneud i warchod ysgolion mewn cymunedau gwledig. Teimlai cymuned Talwrn gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr Ysgol Talwrn yn gryf fod y penderfyniad yn cael ei frysio yn ystod cyfnod ble mae cyfyngiadau pandemig wedi ei gwneud hi'n anodd iddynt ymateb yn briodol. Pwysleisiodd Cynghorydd Owen fod yr ystyriaethau ag arweiniodd at ohiriad y penderfyniad ar y mater hwn yn Mehefin 2020 - sef yr angen i ymateb i'r argyfwng ac i gadw pobl Ynys Môn yn ddiogel - yn parhau i fod yn berthnasol ac felly'n codi cwestiynau ynglŷn a chyfiawnhau bwrw ymlaen ar yr adeg hon. Cyfeiriodd Cynghorydd Owen at gywirdeb y data yn benodol y ffaith bod 5 o blant wedi'u cofnodi fel rhai sydd wedi'u cofrestru ar gyfer darpariaeth feithrinfa pan fod 14 o blant yn mynychu'r Cylch Meithrin mewn gwirionedd. O ran gwerth am arian, cynigodd Cynghorydd Owen y byddai'n gwneud mwy o synnwyr ariannol fod Ysgol Corn Hir yn cael ei hadeiladu gyda capasiti digonol ar gyfer unrhyw orlif o ddisgyblion o Langefni a bod Ysgol Talwrn yn cael ei chadw, yn hytrach na gwario £6m ar estyniad i Ysgol y Graig. Nid oes unrhyw fanylion wedi cael eu darparu chwaith ynglŷn â lleoliad yr estyniad arfaethedig ar gyfer Ysgol y Graig.

DRAFT

Rhoddwyd y cyfle i’r Cynghorwyr Kenneth Hughes, R. Llewelyn Jones a Peter Rogers i siarad fel cyd-lofnodwyr y cais galw i mewn, ac mi ailadroddon deimladau'r Cynghorydd Bryan Owen o ran y pryderon ynglŷn â’r effeithiau tymor-hir fyddai cau Ysgol Talwrn yn eu cael ar bentref Talwrn a’i gymuned o siaradwyr Cymraeg. Cyfeiriasant at y diffyg eglurder o ran y data cylch meithrin a’r angen i’r ystyriaethau gynnwys lles cenedlaethau’r dyfodol a rhoi plant wrth wraidd y penderfyniad. Mi wnaethon gytuno a’r farn y byddai adeiladu capasiti digonol yn yr Ysgol Corn Hir newydd yn opsiwn gwell o ran gwerth am arian nag adeiladu estyniad ar Ysgol Y Graig.

Siaradodd Mr Robat Idris Davies ar ran cymuned Talwrn i ail-bwysleisio gwrthwynebiad y gymuned i’r cynnig o gau Ysgol Talwrn fel y'i cyfleuir gan y 46 gwrthwynebiad a’i cyflwynwyd mewn ymateb i gyhoeddiad y rhybudd statudol o’r cynnig i gau'r ysgol gan nodi pryderon ynglŷn ag effaith cau’r ysgol ar ysbryd a hunaniaeth y pentref ac os oedd hi’n iawn ystyried mater mor arwyddocaol yng nghanol pandemig. Dywedodd Mr Davies nad oes dadl dda o blaid cau'r ysgol sydd yn ffynnu o ran addysg ac mewn adeilad cadarn ac mai opsiwn mwy synhwyrol fyddai gwneud cais i’r Gronfa Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer moderneiddio'r ysgol. Y teimlad cyffredinol yn y gymuned yw nad yw’r Cyngor yn gwrando ac wedi gwneud ei feddwl o ran dyfodol Ysgol Talwrn.

Ymatebodd yr Aelodau Portffolio a’r Swyddogion oedd yn bresennol yn estynedig i’r cais galw i mewn gan gyfeirio at y canlynol –

- Fel rhan o’r ymgynghoriad statudol yn Chwefror/Mawrth 2020, ystyriwyd cynnig gwreiddiol y Cyngor ynghyd a nifer o gynigion eraill yn fanwl; cafodd modelau addysgol a awgrymwyd gan y rhanddeiliaid hefyd eu hasesu ac fe ystyriwyd 12 o opsiynau eraill rhesymol yn lle cau Ysgol Talwrn gan gynnwys ffederaleiddio ond fe ganfuwyd nad oeddent yn cyflawni gyrwyr allweddol y Strategaeth Foderneiddio ysgolion presennol nac yn datrys yr heriau sydd yn wynebu'r ddwy ysgol.
- Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennedig y byddai’r Cyngor yn cael estyniad tan y 19eg o Fawrth, 2021 i gyhoeddi unrhyw gynnig a bod y Cyngor wedi gweithredu yn ôl gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 drwy gydol y broses hon. Mae’r broses wedi cymryd 16 mis ac wedi cynnwys ymgynghoriad gydag amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys staff, rhieni, llywodraethwyr a disgyblion y ddwy ysgol.
- Bod effaith y cynnig ar genedlaethau’r dyfodol o ran y pum ffordd o weithio wedi cael ei werthuso (cyfeiriai Adran F o’r adroddiad at hyn) ac yn dangos gradd y cydweithredu wrth ddod i benderfyniad a chyfranogiad dinasyddion yn y broses benderfynu.
- Bod y Cyngor yn deall rhwystredigaeth y rhanddeiliaid o ganlyniad i’r sefyllfa pandemig ond yn credu ei fod wedi bod ystyriol ac yn sensitif wrth ddelio gyda’r cyfnod clo ac wedi rhoi amser a chyfle digonol i’r rhanddeiliaid ymateb. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch ymgynghori ar gynnigion yn ystod y pandemig ac mae’r Cyngor wedi eu dilyn yn agos.
- Bod y nifer o wrthwynebiadau a dderbynwyd i’r cynnig yn ystod y cyfnod clo sef 46 yn uwch nac yn y gorffennol. Yn ogystal, derbyniwyd mwy o ymatebion i’r ymgynghoriad yn 2020 (57 ymateb) nac yn 2018 (52 ymateb).
- Bod yr Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg a asesodd effaith bosibl y cynnig ar yr iaith Gymraeg yn yr ysgol ac yn y gymuned wedi dod i’r casgliad y byddai’n cael effaith bositif ar yr iaith. Bydd yr Asesiad Effaith yn parhau yn ddogfen fyw a bydd yn fodd o leddfu pryderon rhanddeiliaid drwy gydol y prosiect.
- Bod data CYBLD 2020 yn dangos fod canran y disgyblion sydd yn siarad y Gymraeg yn rhugl yn y cartref yn uwch yn Ysgol y Graig (73%) nac yn Ysgol Talwrn (40%) a all roi cyfle i’r iaith ffynnu ymysg y plant sydd yn symud o Ysgol Talwrn drwy mwy o ddefnydd gydag ystod ehangach o blant. Mi fyddai’n gyfrifoldeb Tîm Arweinyddiaeth Ysgol y Graig estynedig arfaethedig i hybu’r defnydd anffufiol o’r Gymraeg gan ddisgyblion yn ystod oriau ysgol a byddai disgwyl i’r ysgol hybu’r defnydd o’r Gymraeg yn y dosbarth ac ar y buarth yn unol a Siarter Iaith Gymraeg yr Awdurdod.

DRAFT

- Caiff y ffigyrau ar gyfer presenoldeb y Cylch Meithrin eu seilio ar y ffigyrau a ddarperir i'r Awdurdod bob tymor hydref (gyda'r Cylch Meithrin yn cael ei redeg yn annibynnol i'r Awdurdod) a olygai fod y broses gasglu data yn gyson. Mae'r wybodaeth yma yn dangos fod y nifer o blant sydd yn mynychu'r Cylch Meithrin dros y 5 mlynedd diwethaf yn fwy neu lai'n ddwbl y nifer o blant sydd yna'n mynychu dosbarth derbyn Ysgol Talwrn yn y flwyddyn ganlynol e.e. dros y cyfnod o 2016/17 i 2019/20 mi fynychodd gyfanswm o 34 o blant y Cylch Meithrin a dim ond 18 ohonyn nhw wnaeth yna fynychu Ysgol Talwrn.
- Bod dyraniad cyllid £36m Ysgolion 21ain Ganrif Ynys Môn o dan Fand B ar gyfer costau nid yn unig Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig yn Llangefni, ond hefyd ysgolion yn ardaloedd Seiriol ac Amlwch a byddai gwario mwy ar un ardal yn cael effaith uniongyrchol ar leihau cyllid ar gyfer yr ardaloedd sy'n weddill. Byddai cadw Ysgol Talwrn yn ogystal rhoi estyniad ar Ysgol y Graig neu adeiladu Ysgol Corn Hir fwy i gymryd gweddill disgyblion Llangefni yn cynyddu cost y prosiect o oddeutu £1.4 miliwn i ganiatáu'r addasiadau angenrheidiol i Ysgol Talwrn er mwyn ei bod yn medru cyflawni darpariaethau'r Cwricwlwm newydd yn llawn.
- Bod y Cyngor am wario'r dyraniad Ysgolion 21ain Ganrif £36m ar y sail y byddai'n annoeth ildio buddsoddiad sy'n cael ei ariannu 65% gan Lywodraeth Cymru; os nad yw Ynys Môn yn defnyddio'r cyllid er budd Ynys Môn yna bydd yn cael ei ail-ddyrannu i awdurdodau lleol eraill.
- Bod angen ystyried gwerth am arian ar sail economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. O ran economi, mae cau Ysgol Talwrn yn fwy darbodus na'i chadw yn agored am y byddai hynny yn golygu £1.4m yn ychwanegol i godi ei safon; o ran effeithlonrwydd byddai cau Ysgol Talwrn yn cael gwared â'r costau rhedeg presennol o 40% ac felly'n rhyddhau'r adnoddau hynny i gael eu defnyddio yn fwy effeithlon ar gyfer darparu addysg. O ran effeithiolrwydd byddai cadw Ysgol Talwrn yn agored ddim yn cwrdd â'r gyrwyd ariannol yn Strategaeth Foderneiddio'r Ysgol a ddim ond cyrraedd y gyrwyr eraill gyda chost ychwanegol o £1.4 miliwn ac felly'n ei wneud yn opsiwn llai effeithiol na chau'r ysgol.
- O ran canfod tir ar gyfer yr estyniad arfaethedig ar gyfer Ysgol y Graig, mae'r ysgol bresennol wedi ei hadeiladu ar gyfer dros 300 o ddisgyblion gydag opsiwn i adeiladu estyniad ar y naill ben neu'r llall i ddarparu dau ddosbarth ychwanegol. Fodd bynnag, mae bellach angen saith dosbarth ychwanegol gan wneud y cynllun gwreiddiol yn anymarferol. Byddai defnyddio'r tir presennol sydd o gwmpas yr ysgol yn golygu colli'r cae chwarae a fyddai'n mynd yn erbyn safonau Estyn. Byddai defnyddio tir y maes parcio yn gwaethygu'r problemau parcio presennol ac ni fyddai'n bosibl beth bynnag oherwydd y tanciau storio sydd o dan y maes parcio. Yr opsiwn sydd yn cael ei ystyried ac sydd â thrafodaethau yn ei gylch yn mynd ymlaen ar hyn o bryd yw i brynu tir ger llaw i adeiladu'r estyniad arfaethedig. Byddai'n amhriodol i wneud sylwadau pellach nes bod penderfyniad terfynol ar yr ysgol wedi'i gadarnhau.

Fel y llofnodwr galw i mewn arweiniol rhoddwyd gyfle i'r Cynghorydd Bryan Owen i grynhoi.

Siaradodd Cynghorydd Dylan Rees a Nicola Roberts, Aelodau Lleol i gadarnhau eu bod yn credu bod y rhesymau dros wneud y cais galw i mewn wedi eu hateb a bod eu barn nhw'n parhau yn ddi-newid o ran cefnogi penderfyniad y Pwyllgor Gwaith fel y ffordd ymlaen fwyaf ymarferol o ran mynd i'r afael â'r her o foderneiddio darpariaeth addysg gynradd yn y rhan hon o Langefni. Cyfeiriodd Cynghorydd Dylan Rees i adroddiad gan Archwilio Cymru wedi'i ddyddio'n Dachwedd, 2020 a oedd yn daparu asesiad o ymateb ac adferiad Covid-19 yr Awdurod, a nododd y bydd parhau i ddarparu rhaglenni a phrosiectau blaenoriaeth allweddol yn y rhaglen drawsnewid yn cyfrannu at wytnwch gwasanaethau.

Rhoddwyd y cyfle i Gynghorydd R. Meirion Jones, Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant a Chynghorydd R. G. Parry, OBE, FRAgS Aelod Gweithredol ac Aelod Lleol i roi eu sylwadau.

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd ar lafar ac yn ysgrifenedig ac fe nododd yr Aelodau oedd heb lofnodi y cais galw i mewn, eu bod yn fodlon â'r ymatebion a ddarparwyd ac ni chawsant eu perswadio i gefnogi'r galw i mewn.

Dywedodd y Cadeirydd bod gan y Pwyllgor dri opsiwn wrth ddodd i benderfyniad ynglyn â'r galw i mewn, sef:

- I wrthod y galw i mewn ac i dderbyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith
- I wrthod penderfyniad y Pwylllgor Gwaith ac ei atgyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith gydag argymhelliad y dylid ei ailystyried a / neu ei ddiwygio.
- I wrthod penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ac i atgyfeirio y mater i'r Cyngor Llawn gyda'r wybodaeth nad oes gan y Cyngor ddim awdurdodaeth ar y mater hwn ac y bydd felly ond yn medru ei atgyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith.

Cynnigodd Cynghorydd Bryan Owen, ac fe'i eilwyd gan Gynghorydd Aled Morris Jones, y dylai'r penderfyniad gael ei atgyfeirio yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith gyda'r argymhelliad y dylai Ysgol Talwrn barhau yn agored. Cynnigodd Cynghorydd Richard Owain Jones welliant i wrthod y galw i mewn ac y dylai penderfyniad y Pwyllgor Gwaith gael ei gymeradwyo, ac fe'i eilwyd gan Cynghorydd Alun Roberts. Yn y bleidlais a ddilynodd cafodd y gwelliant ei gymeradwyo o 10 pleidlais i 2.

**Penderfynwyd gwrthod y galw i mewn ac i dderbyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar y 15fed o Fawrth, 2021 sef i gymeradwyo'r cynnig gwreiddiol, sef i gynyddu capasiti Ysgol y Graig i ddarparu ar gyfer Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu ardaloedd dalgylch Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.**

*Felly bydd penderfyniad y Pwyllgor Gwaith ar y 15fed o Fawrth, 2021 yn dod i rym ar unwaith.*

**Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 23 Ebrill, 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Dylan Rees (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Bryan Owen, Margaret M Roberts<br><br>**Aelodau'r Portffolio**<br><br>Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant) Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau) R.G. Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid) |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Dros Dro y Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Swyddog Hyfforddi Adnoddau Dynol (CD)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr Richard Griffiths, Richard Owain Jones, Alun Roberts, J. Arwel Roberts, Nicola Roberts, Mr Keith Roberts, (Aelod Cyfetholedig) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol (Trawsnewid Prosesau Busnes) (KH), Swyddog Sgriwtini (SR), Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol) |

---

### 1 DATGAN DIDDORDEB

Bu i'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb yn eitem 2 ar yr agenda gan ei fod yn wirfoddolwr gyda Bwyd Da Môn.

Bu i'r Robin Williams (heb fod yn aelod o'r Pwyllgor) hefyd ddatgan diddordeb yn eitem 2 ar yr agenda.

### 2 COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Chwefror ac 8 Mawrth, 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

DRAFT

## 3 YMATEB Y CYNGOR I COVID-19

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr yn amlinellu ymateb y Cyngor hyd yma i bandemig y coronafeirws o dan nawdd Deddf Argyfyngau Sifil 2004 i'w ystyried gan y Pwyllgor. Canolbwyntiodd yr adroddiad yn benodol ar yr ymateb i ddiogelu lles staff a chymunedau ac effeithiolrwydd y strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu (TTP) ar yr Ynys yn dilyn cais gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 14 Medi 2020 wrth ystyried yr ymateb cychwynnol i'r pandemig y dylid dilyn yr agweddau penodol hyn ar yr ymateb wedi hynny.

Dywedodd y Cadeirydd fod hwn yn amser da i fyfyrio ar y nifer a oedd, yn anffodus, wedi colli eu bywydau i'r coronafeirws, eu teuluoedd a'u ffrindiau sy'n galaru ac i feddwl hefyd am y rhai sy'n parhau i ddioddef effeithiau Covid-19. Cynhaliwyd munud o dawelwch i gofio pawb oedd wedi marw o ganlyniad i'r pandemig.

Wrth gyflwyno'r adroddiad dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 14 Medi 2020 a oedd yn manylu ar yr ymateb cychwynnol i argyfwng y pandemig o safbwynt y trefniadau llywodraethu a weithredwyd, y meysydd risg allweddol, adleoli staff y Cyngor i helpu i ymateb i'r argyfwng, yr effaith ariannol a rheoli TTP ar lefel leol.

Manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i ddiolch i bawb gan gynnwys staff y Cyngor, Aelodau Etholedig a phartneriaid y tu allan i'r sefydliad am y cydweithio a fu'n hanfodol i lwyddiant yr ymateb i'r pandemig hyd yma.

Wrth osod y cyd-destun pwysleisiodd y Dirprwy Brif Weithredwr fod yr ansicrwydd dyddiol o ran Covid 19 yn parhau ac er bod y sefyllfa ar hyn o bryd yn galonogol, gall amgylchiadau newid yn gyflym iawn. Er gwaetha llanw a thrai yr heriau bob wythnos, mae gweithlu'r Cyngor wedi ymateb gydag ymrwymiad, gwydnwch a hyblygrwydd a'r gobaith yw y gellir adeiladu ar yr ystwythder a'r hyblygrwydd hwn wrth i'r Cyngor fynd rhagddo gyda'r gwaith adfer. Mae'r strwythurau o fewn a thu allan i'r Cyngor wedi hwyluso cydweithio sydd wedi bod yn elfen allweddol, gan ei gwneud yn bosibl iddo ymateb yn gyflym a thrwy hynny helpu i fynd i'r afael â'r heriau'n effeithiol. Mae'r ymdrechion cydweithredol hefyd wedi cynnwys y gymuned, fel y dangoswyd gan y sefyllfa yng Nghaergybi a reolwyd o fewn yr adnoddau oedd ar gael. Roedd yn her sylweddol ond bu modd diogelu iechyd a lles y gymuned.  Mae darn gan Archwilio Cymru, dyddiedig 22 Ebrill, 2021 yn cyfeirio at y ffaith bod Covid-19 wedi dangos gwerth llywodraeth leol wrth amddiffyn pobl a chymunedau; yn ôl sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol *"mae ein hymchwil wedi amlygu'r rhan hanfodol y mae llywodraeth leol yn ei chwarae wrth amddiffyn pobl a chymunedau. Mae'r pandemig wedi gweld llywodraeth leol yn camu i'r adwy a darparu gwasanaethau hanfodol i'w cymunedau. Fodd bynnag, mae lleihau ehangder y gwasanaethau a ddarperir yn golygu bod angen i gynghorau lleol sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol i'w holl ddinasyddion. Mae'r pandemig wedi rhoi cyfle iddynt ailedrych ar eu swyddogaeth a dod o hyd i atebion arloesol newydd i ddiogelu'r gwasanaethau hanfodol a ddarparant."*

Cyfeiriodd Pennaeth y Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid at y Strategaeth TTP gan dynnu sylw at y ffaith bod y systemau TTP yn wahanol yng Nghymru a Lloegr;  mae model rhanbarthol yn weithredol ar draws 6 sir Gogledd Cymru sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru tan 30 Medi 2021. Mae tua 80 o staff yn gweithio i'r tîm TTP lleol ar Ynys Môn, gan gynnwys Rheolwyr Busnes, Tracwyr a Chynghorwyr. Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, cafwyd 8 achos cadarnhaol o Covid-19 ar Ynys Môn y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig ag ysbytai; cyfanswm nifer yr achosion yw 2,298 a'r gyfradd mynychder yw 11.4 (i lawr o 17.2). Mae cyfanswm o 540 o brofion wedi'u cynnal gyda chyfradd gadarnhaol gyfredol o 1.5 (i lawr o 3.3). O safbwynt Cyngor Ynys Môn fel cyflogwr, mae pob penderfyniad sy'n gysylltiedig â Covid 19 wedi'i wneud gan roi sylw i ddyletswydd gofal y Cyngor i'w staff fel cyflogwr cyfrifol, ystyriol a da. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud ar y cyd ar draws y Cyngor i gefnogi staff yn ystod y cyfnod hwn wedi'i alluogi a'i hwyluso gan bolisi adleoli'r Cyngor a oedd yn un o nifer fach ymhlith cynghorau



DRAFT

yng Nghymru ar ddechrau'r pandemig. Mae'r cymorth a ddarparwyd wedi cynnwys rhannu gwybodaeth mewn nifer o ffyrdd. Sefydlwyd tudalen Llesiant Gweithio o Gartref ar ddechrau'r cyfyngiadau symud cyntaf ym mis Mawrth, 2020 gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am y Coronafeirws ac iechyd a lles yn gyffredinol; cyflwynwyd 21 o sesiynau gwybodaeth ar amrywiaeth o bynciau iechyd a lles a pharhawyd i gynnal y rhaglen E ddysgu gan ychwanegu modiwlau Ymwybyddiaeth o Bryder a Gwytnwch Personol ati. Mae'r adroddiad yn ymhelaethu ar y cynlluniau hyn gan gynnwys i ba raddau y cawsant eu cyrchu a/neu eu defnyddio gan staff yn ystod y pandemig hyd yma.

Siaradodd Pennaeth Gwasanaethau Tai am y gwaith a wnaed i sicrhau lles cymunedau ar draws yr Ynys yn ystod y cyfnod heriol hwn a chyfeiriodd at werth y gweithgaredd cynllunio lle a oedd wedi dechrau cyn y pandemig. Mae wedi cyfrannu at ddealltwriaeth y Cyngor o'i gymunedau, a'r bartneriaeth bresennol gyda Menter Môn a Medrwn Môn sydd wedi helpu i sefydlu'r Grŵp Cymorth Cymunedol. Rhoddodd hyn sail gadarn ar gyfer gweithredu’n gyflym a chynnig cymorth i gymunedau. Nodwyd a sefydlwyd tair ffrwd waith mewn perthynas â chyflenwad bwyd, lles cymunedol a gwirfoddoli. Mae'r galw wedi bod yn uchel ac mae 2,000 o becynnau bwyd wedi'u paratoi a'u dosbarthu gan fanciau bwyd yn ystod y pandemig mewn cyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen. Sefydlodd Medrwn Môn y Cynllun Neges sydd wedi darparu 3,000 o becynnau neges i drigolion Bregus Ynys Môn. Ffrwd ychwanegol sy'n gysylltiedig â bwyd yw cynllun Bwyd Da Ynys Môn sydd wedi canolbwyntio ar leihau gwastraff bwyd. Bydd hyn yn parhau yn y cyfnod adfer. Un o uchafbwyntiau'r ymateb fu'r ffordd y mae cymunedau wedi dod at ei gilydd i gydweithio’n wirfoddol, gyda 37 o dimau ardal leol yn defnyddio 860 o wirfoddolwyr yn ystod y don gyntaf o Covid 19. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae 8 Cynllun Tro Da wedi'u sefydlu’n ffurfiol ac mae'r rhain wedi grymuso cymunedau i wneud mwy drostynt eu hunain - mae 14,000 o "droeon da" wedi'u gwneud ar gyfer 1,700 o unigolion ac mae'r rhain wedi cynnwys nôl siopa, meddyginiaethau a chadw mewn cysylltiad sydd wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i bobl heb lawer o deulu i’w helpu, os o gwbl. Mae gwirfoddolwyr hefyd wedi mynd ag unigolion i dderbyn eu brechiad ac wedi danfon profion Covid 19 i aelwydydd yn ystod yr achosion diweddar yng Nghaergybi.

Disgrifiodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol y gwaith a wnaed gan staff y Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi’r ymdrechion yn ystod y pandemig yn ogystal â'u cyfrifoldebau statudol. Roedd y rhain yn cynnwys cadw mewn cysylltiad â phlant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd, darparu Prydau Ysgol am Ddim, dosbarthu mygydau wyneb i blant a phobl ifanc, darparu dros 600 o becynnau gweithgareddau a chynnig cyngor ac arweiniad i rieni a oedd yn cael trafferth yn ystod y cyfnod hwn. Ffoniodd Cyswllt Môn a'r Gwasanaethau Oedolion yr holl breswylwyr ar y rhestr gysgodi, sef cyfanswm o ychydig o dan 4,000 o bobl. Lansiwyd cynllun digidol drwy Medrwn Môn, Gwasanaethau Oedolion a Heneiddio’n Dda Gwynedd a Môn gyda chyllid ICF i wella sgiliau digidol trigolion Ynys Môn fel bod modd iddynt gymryd rhan mewn hybiau rhithwir a rheoli eu siopa bwyd neu eu cyllid ar-lein.

Rhoddwyd cyfle i'r Swyddogion grynhoi'r hyn a welsant fel yr ystyriaethau allweddol wrth symud ymlaen i’r cyfnod adfer a normalrwydd gwahanol. Cyfeiriwyd at y canlynol - rôl sylweddol llywodraeth leol yn y pandemig a bod disgwyl i awdurdodau lleol barhau i chwarae rhan ganolog yn yr adferiad; pwysigrwydd dysgu gwersi yn sgil y profiadau a gafwyd wrth ymateb i'r argyfwng ar lefel sefydliad a chymuned gan gynnwys parhau i fod yn hyblyg a sicrhau bod y Cyngor a’r cymunedau’n gadarn; parhau i gefnogi iechyd a lles staff a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt; rheoli risgiau yn barhaus gan gynnwys dyfodol TTP ar ôl Medi, 2021; rheoli achosion lleol os byddant yn digwydd a pharhau i fod yn wyliadwrus a pharatoi rhag ofn y bydd trydedd don bosibl o Coronafeirws.

Wrth i’r Pwyllgor ganmol y ffordd yr oedd yr Awdurdod wedi ymateb i'r pandemig ac wedi delio ag ef, gan weithio ochr yn ochr â chymunedau a phartneriaid, codwyd y pwyntiau canlynol –

DRAFT

- Gan gyfeirio at yr achosion diweddar o Coronafeirws yng Nghaergybi, roedd y Pwyllgor am wybod pam na roddodd Llywodraeth Cymru adnoddau i frechu'r Ynys gyfan o ystyried y ffaith bod Caergybi yn un o ddim ond dwy ardal lle’r oedd y feirws yn gryf yng Nghymru ar y pryd ac o ystyried bod cyfran o drigolion Ynys Cybi eisoes wedi cael eu brechu.

  Eglurodd y Dirprwy Brif Weithredwr bod y ffocws yng Nghaergybi ar reoli lledaeniad y feirws a lleihau nifer yr achosion; ni fyddai brechu wedi cyflawni'r amcan hwn. Rhaid i gyfnod o 28 diwrnod o leiaf fynd heibio cyn y gellir brechu person sydd wedi cael prawf cadarnhaol, ac nid oedd modd adnabod achosion cadarnhaol nes bod rhaglen brofi gymunedol dorfol wedi'i chynnal. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu strategaeth frechu glir yn seiliedig ar grwpiau blaenoriaeth y mae wedi cadw atynt er gwaethaf pwysau gan wahanol sefydliadau a/neu grwpiau i wneud fel arall. Pe bai'r feirws wedi dal i ledaenu yng Nghaergybi yna efallai y byddai angen ymyrraeth bellach; fel y mae pethau, bydd y Tîm Rheoli Digwyddiadau yng Nghaergybi yn cyfarfod am y tro olaf heddiw a bydd gwersi'n cael eu dysgu’n genedlaethol yn sgil y profiad a'r ffordd yr aethpwyd ati i ddelio â'r achos yn yr ardal.

- Wrth gydnabod y rôl arweiniol a gymerwyd gan y Cyngor wrth reoli’r ymdrechion i helpu a chefnogi cymunedau i oroesi’r pandemig, ac ymateb parod cymunedau, awgrymodd y Cadeirydd, pan fydd amser a chyfle yn caniatáu, y gellid dod â'r gwersi a'r arferion da a ddatblygwyd at ei gilydd mewn llawlyfr i ddangos gwydnwch cymunedol ar Ynys Môn, yn debyg i'r hyn a gyhoeddwyd gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol gan gyfeirio at Lundain.

  Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y bydd gwersi o'r pandemig yn cael eu dysgu a'u hadlewyrchu; dywedodd fod y gwaith yng Nghaergybi o dan gyfarwyddyd y Dirprwy Brif Weithredwr wedi'i gwblhau ac y bydd yn destun adroddiad y gellir ei rannu'n ehangach yn amodol ar sêl bendith y Tîm Rheoli Digwyddiadau. Dywedodd y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd y Cyngor yr hoffai gyflwyno’r awgrym o ddatblygu llawlyfr ar wydnwch cymunedol yn Ynys Môn i'r Grŵp Cymorth Cymunedol ei drafod er mwyn sicrhau nad yw'r llawlyfr yn canolbwyntio ar bersbectif y Cyngor yn unig. Dylai gynnwys barn a phrofiadau ei bartneriaid ym Medrwn Môn a Menter Môn hefyd.

- Gofynnodd y Cadeirydd ymhellach am eglurhad o'r dull brechu a weithredwyd a ph’un ai a oes gwybodaeth ar gael am niferoedd staff y Cyngor sydd wedi manteisio arno.

  Dywedodd y Prif Weithredwr fod staff y Cyngor yn cael eu hannog yn gryf i dderbyn y cynnig o frechu ac mae pwysigrwydd cael eu brechu yn cael ei bwysleisio yn y negeseuon wythnosol gan y Prif Weithredwr i staff. Cadarnhaodd Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid fod y Cyngor wedi bod yn gweithio gyda'r undebau sy'n cefnogi'r ymdrechion i annog staff i gael eu brechu a gyda'r Bwrdd Iechyd i gyflwyno sesiwn holi ac ateb i staff. Mae adran fideo a Chwestiynau Cyffredin a baratowyd gan weithwyr iechyd proffesiynol hefyd ar gael ar safle mewnrwyd y Cyngor. Mewn ymateb i gwestiwn am adleoli staff nad ydynt yn dymuno/na ellir eu brechu mewn lleoliadau lle ceir cyswllt â'r cyhoedd, eglurodd y Swyddog fod awdurdodau lleol ledled Cymru yn cydnabod bod angen canllawiau cenedlaethol ar y mater a deellir bod canllawiau o'r fath wrthi’n cael eu paratoi; y dull gweithredu yn lleol yw annog staff i gael eu brechu a pharhau i ddarparu gwybodaeth mewn ymateb i gwestiynau staff ac unrhyw bryderon sydd ganddynt ar y mater hwn.

- Gan gydnabod pwysigrwydd y llinell waelod, roedd y Cynghorydd John Griffith am wybod graddfa effaith y pandemig ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod Llywodraeth Cymru, o'r cychwyn cyntaf, wedi bod yn darparu cymorth ariannol i helpu gyda'r costau ychwanegol wrth ddelio â'r pandemig ac i wneud iawn am golli incwm. Hyd yma mae'r Cyngor wedi hawlio tua £7m gan Lywodraeth Cymru ac mae'r rhan fwyaf ohono wedi'i dalu. Rhagwelir y bydd y Cyngor yn tanwario tua £1m ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21 a bydd adroddiad ar alldro cyllideb 2020/21 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mai. Nid yw'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar gyllid y Cyngor oherwydd y gefnogaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Hebddo byddai'r Cyngor wedi gorfod defnyddio ei gronfeydd ar gyfer y pwysau ariannol a achoswyd gan Covid-19.

- Mewn perthynas â lles staff, cyfeiriodd y Cynghorydd Dylan Rees at gynllun caplaniaeth yr oedd caplan lleol wedi cynnig ei ddarparu am ddim i staff y Cyngor; Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees ei fod yn synnu ac yn siomedig bod y cynllun wedi'i wrthod am resymau cydraddoldeb ac ar sail bod y trefniadau cymorth sydd yn eu lle'n cael eu hystyried yn ddigonol. Roedd yn anghytuno â'r rhesymau hynny. Teimlai ei fod yn dangos agwedd "methu gwneud" ar ran yr Awdurdod yn enwedig gan ei fod yn deall bod Heddlu Gogledd Cymru wedi manteisio ar y cynnig ar gyfer eu staff eu hunain. Gofynnodd i'r Cyngor ailystyried a cheisio adborth ar y cynllun gan Heddlu Gogledd Cymru neu o leiaf gynnal cynllun peilot gan ei fod yn credu y gallai staff elwa ar gael clust i wrando fel yr un a gynigir gan y cynllun caplaniaeth.

  Mynegodd y Prif Weithredwr a Phennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid siom fod y Cynghorydd Dylan Rees o'r farn bod diffyg manteisio ar y cynnig yn adlewyrchu agwedd "methu gwneud" yn enwedig gan fod Swyddogion yr Awdurdod wedi delio â'r pandemig mewn ffordd "gallu gwneud" am 7 diwrnod yr wythnos. Cadarnhaodd Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid fod ymateb ar y mater hwn wedi'i anfon at y Cynghorydd Rees yn bersonol ers iddo ddod â'r cynnig i sylw'r Awdurdod, yn ogystal ag yn uniongyrchol at yr ymgeisydd. Eglurodd fod yr Awdurdod yn caffael gwasanaeth cwnsela annibynnol gan gwmni proffesiynol nad oes ganddo bersbectif ffydd, gan sicrhau bod yr holl staff yn cael eu trin yn gyfartal. Yn ogystal â hyn, nid oedd agweddau ar y ddogfen a oedd yn cyd-fynd â'r cynnig yn bodloni gofynion yr Awdurdod ar gyfer darparu gwasanaeth o'r fath. Rhaid i'r Awdurdod roi sylw i'w ddyletswydd gofal tuag at staff wrth ystyried darparu gwasanaeth. Mae swyddogion wedi bod yn gweithio o dan bwysau sylweddol wrth ddelio â'r pandemig ac maent hefyd wedi gweithio'n galed i sicrhau lles staff yn ystod y cyfnod hwn, yn cynnwys cyflwyno nifer o gynlluniau newydd fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Dywedodd Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid yr awgrymwyd i'r darpar ddarparwr nad oedd yr Awdurdod yn gweld unrhyw reswm pam na ellid gwahodd staff gysylltu â'r darparwr yn unigol os oeddent yn dymuno gwneud hynny, ond nid oedd yn ymwybodol bod gwahoddiad o'r fath wedi'i roi.

  Cynigiodd y Cadeirydd y dylid darparu adroddiad i'r Pwyllgor fel y gellid ei ddiweddaru ynghylch y materion/ystyriaethau dan sylw. Dywedodd y Cynghorydd Dylan Rees nad oedd yn fwriad ganddo i danseilio'r ddarpariaeth bresennol ond yn hytrach i ddarparu gwasanaeth ychwanegol; nid oedd yn ystyried bod angen adroddiad gan mai dim ond gofyn i'r cynnig gael ei ailystyried ydoedd. Ni chefnogwyd y cynnig y dylid cyflwyno adroddiad gan y Pwyllgor.

- Cydnabu'r Pwyllgor y bydd y broses adfer yn golygu dod yn gyfarwydd â normalrwydd newydd. Holodd y Cynghorydd John Griffith sut olwg fydd ar y normalrwydd newydd ac ym mha ffyrdd y bydd yn wahanol i'r normalrwydd cyn pandemig.

  Dywedodd y Dirprwy Brif Weithredwr y bydd adferiad yn golygu adolygu sut mae'r pandemig wedi newid y ffyrdd y mae'r Cyngor yn gweithredu a phenderfynu pa

DRAFT

newidiadau fydd yn cael eu cadw yn y tymor hir gan fod yn ymwybodol hefyd bod llawer o'r hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud yn statudol ac y bydd yn parhau. Rhagwelir y bydd y Cyngor yn symud tuag at fodel hybrid wrth symud ymlaen lle bydd rhai elfennau cyn y pandemig yn cael eu cadw ochr yn ochr â rhai o'r arferion/ffyrdd newydd o weithio a fabwysiadwyd yn ystod cyfnod y pandemig er mwyn creu dyfodol a fydd yn wahanol. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau drwy wahodd adborth gan reolwyr canol sydd, yn rhinwedd eu swydd, â chyswllt uniongyrchol â'u timau rheng flaen yn ogystal â dealltwriaeth o gyfeiriad strategol, rheoli perfformiad a gofynion atebolrwydd. Mae'r pandemig yn rhoi cyfle i sicrhau newid diwylliant er gwell, ac i weithio mewn ffyrdd mwy effeithiol o ran perfformiad, diwallu anghenion y gymuned a hefyd sicrhau cydbwysedd rhwng gwaith a lles personol. Rhagwelir mai ym mis Medi, 2021 fydd y Cyngor yn gallu symud yn hyderus i'r cam arferol nesaf. Ar ôl hynny disgwylir y bydd cylch o newidiadau wrth i'r sefyllfa ar ôl y pandemig ddatblygu.

Mewn ymateb i gwestiwn am ailddechrau'r broses ddemocrataidd yn Swyddfeydd y Cyngor, dywedodd y Prif Weithredwr fod gwaith yn mynd rhagddo yn y cefndir i asesu'r hyn sy'n bosibl yn amodol ar gadw at y canllawiau, i dderbyn bod y rhaglen frechu yn gwella ond nad yw'n datrys y sefyllfa, ac nad oes trydedd don o'r feirws.

**Penderfynwyd nodi ymateb y Cyngor i’r pandemig ac yn benodol yr ymateb wrth ddiogelu llesiant staff a chymunedau ac effeithiolrwydd y Strategaeth Profi ac Olrhain.**

**Gweithredu Ychwanegol: Dylid creu Llawlyfr Gwydnwch Cymunedol Ynys Môn i gofnodi'r gwersi a’r arferion da o’r pandemig ar lefel gymunedol. Dylid cyfeirio at Lawlyfr Gwydnwch Cymunedol Llundain yr LGA ac ymgynghori â’r Grŵp Cefnogi Cymunedol ynglŷn â’i fewnbwn.**

**4 BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd blaen raglen waith y Pwyllgor hyd at fis Tachwedd 2021 i'w hystyried.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar fersiwn bresennol y flaen raglen waith ar gyfer 2021/22.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma i weithredu'r flaen raglen waith.**

**Cynghorydd Aled Morris Jones**
**Cadeirydd**



DRAFT

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 18 Mai 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr John Griffith, Richard Griffiths, Aled Morris Jones, Dylan Rees, Alun Roberts, J A Roberts, Nicola Roberts, Bryan Owen a Margaret M Roberts. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Glyn Haynes – Cadeirydd y Cyngor Sir. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Richard Owain Jones |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Aled Morris Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**3 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Dylan Rees yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**Y CYNGHORYDD GLYN HAYNES**
**FEL CADEIRYDD Y CYNGOR SIR**

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 7 Mehefin 2021 |
| **Pwnc:** | ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2020/21) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Herio Perfformiad |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | CYNG ALED M JONES |
| **Aelod(au) Portfolio:** | CYNG DAFYDD RHYS THOMAS |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | CARYS EDWARDS |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | GETHIN MORGAN<br><br>01248 752111<br><br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1. – Argymhelliad/ion**

**1.1** Hwn yw'r trydydd cerdyn sgorio ar olaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21. Caiff ei ystyried o fewn y cyd-destun sydd yn cydnabod yr heriau ehangach oedd ar ofyn y Cyngor yn Ch4 yn sgil effaith y pandemig.

**1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

**1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol.

Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

1.3.1. Yn gyffredinol, dylid cynnal a gwella perfformiad ac yn achos y dangosyddion sydd yn is na'r targed, dylid cymryd y camau lliniaru a nodwyd i gynorthwyo gwelliant yn ystod 2021/22.

1.3.2. Cynnal gweithdy gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau Etholedig cyn gynted â phosib i gadarnhau'r dangosyddion perthnasol i'w cynnwys yn y cerdyn sgorio ar gyfer 2021/22.

1.3.3. Adolygu targedau 21/22 er mwyn sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy a lle bo'r pandemig coronafeirws yn effeithio ar dargedau, eu bod yn cael eu nodi a'u diweddaru drwy gydol y flwyddyn.

Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

| 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall |
|---|
| Yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses monitro Cynllun y Cyngor |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

4.1 Sut mae sefyllfa'r tanwariant refeniw ar ddiwedd y flwyddyn yn effeithio ar gyllidebau'r Cyngor yn ystod 2021/22 a thu hwnt?

4.2 Mae chwarter 4 yn adrodd ar danberfformiad yn erbyn rhai dangosyddion gwasanaeth. Sut bydd y cynlluniau lliniaru yn cael eu blaenoriaethu a'u monitro dros y misoedd nesaf?

4.3 Mae'r adroddiad yn trafod effaith Covid-19 ar berfformiad gwasanaethau'r Cyngor. Sut y bydd unrhyw Gynlluniau Adfer arfaethedig i'r pandemig yn mynd i'r afael â hyn?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

5.1 Un o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni roi trefniadau ar waith i gael dealltwriaeth effeithiol

o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni'r anghenion a'r blaenoriaethau hynny, ac er mwyn gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

5.2 Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol a'n hamcanion ar gyfer y cyfnod. Eleni fu'r cyfnod anoddaf ers sefydlu'r Cyngor hwn. O ystyried ein bod wedi cychwyn y flwyddyn yn wynebu ansicrwydd sylweddol yng nghanol pandemig byd-eang, mae'n rhyfeddol pa mor dda oedd perfformiad ar y cyfan. Mae staff y Cyngor wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol y flwyddyn ac mae nifer o staff wedi cyflawni rolau nad oeddent yn bodoli cyn y pandemig. Mae llawer iawn o staff wedi cyflawni eu dyletswyddau ar wahân i'w cydweithwyr ac wedi gorfod gweithio mewn ffyrdd newydd a oedd yn aml yn heriol.

5.3 Dylid dathlu ymdrechion staff i ddarparu gwasanaethau i'n trigolion oherwydd heb eu hymdrechion a'u hyblygrwydd, ni fyddai'r Cyngor yn y sefyllfa gadarnhaol y mae ynddo heddiw.

5.4 Yn ystod Chwarter 4, roedd Cymru'n parhau i fod mewn cyfnod clo cenedlaethol (lefel rhybudd 4) am y rhan fwyaf o'r cyfnod, hyd at 15 Mawrth pan laciwyd ychydig ar y cyfyngiadau. Mae'r cyfnod clo wedi cael effaith ar wasanaethau'r Cyngor ar ddechrau 2021/22, a bydd yn parhau i gael effaith, a thrafodir rhai ohonynt isod.

5.5 Roedd Chwarter 4 yn gyfnod arbennig o heriol wrth i'r ynys weld ei nifer uchaf o achosion positif o Covid-19, gyda chyfanswm o 1058 o achosion yn ystod y cyfnod a chlwstwr o achosion yn cael eu cadarnhau ar Ynys Gybi. Yn ystod rhan helaeth o'r cyfnod, Ynys Môn oedd â'r nifer uchaf o achosion fesul 100,000 o bobl yng Nghymru.

5.6 Cymerodd y Cyngor gamau cadarn ac amserol, yn cynnwys sefydlu Tîm Rheoli Achosion, cyflwyno profion cymunedol torfol, danfon dros 1800 o brofion PCR o ddrws i ddrws ac ail-bwysleisio'r rheoliadau ac ymddygiadau yn lleol.

5.7 O ganlyniad i'r ymateb ac ymyrraeth aml-asiantaethol, llwyddwyd i reoli'r sefyllfa yn gyflym, gan osgoi lledaeniad cymunedol i gymunedau eraill ar Ynys Môn.

5.8 Felly, paratoir yr adroddiad monitro cerdyn sgorio gyda'r cyd-destun hwn mewn golwg ac fe'i defnyddir fel rhan o'r broses i fonitro llwyddiant ein busnes arferol fel gweithgareddau arferol yn erbyn set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a nodwyd.

5.9 Mae'r adroddiad hefyd yn nodi unrhyw gamau lliniaru a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau. Mae'r gweithgareddau busnes pwysig hyn wedi cael eu symud ymlaen yng nghyd-destun y pandemig coronafirws ehangach a nodwyd.

5.10 Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion i gadw staff a thrigolion yn ddiogel wedi dylanwadu ar y cyfnod, mae rhai adnoddau a gallu wedi'u hailgyfeirio, tra bod nifer o feysydd Gwasanaeth wedi wynebu heriau cynyddol yn yr hyn a gydnabyddir yn draddodiadol fel cyfnod anodd.

| |
|---|
| |

| 6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg] |
|---|
| Amherthnasol |

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| Nodir yn yr adroddiad y sefyllfa ariannol diwedd Ch4. |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| Atodiad A - Cerdyn Sgorio Chwarter 4 |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2020/21 – Chwarter 3 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth 2020 ac a dderbyniwyd ganddo.) |

**ADRODDIAD MONITRO CERDYN SGORIO – CHWARTER 4 (2020/21)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Yn ystod blwyddyn nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen, wrth reoli'r pandemig Covid-19, mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni ei rwymedigaeth mewn perthynas â'i ddyletswyddau. Un o ddyletswyddau'r Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau. Mae'n ofynnol i ni roi trefniadau ar waith i gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni'r anghenion a'r blaenoriaethu hynny, ac er mwyn gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2. Mae Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017 i 2022 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol a'n hamcanion ar gyfer y cyfnod.

1.3. Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio fel rhan o'r broses i fonitro llwyddiant ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor ddarparu ei wasanaethau o ddydd i ddydd sydd yn cyd-fynd â'n hamcanion llesiant.

1.4. Mae'r adroddiad hefyd yn dwyn sylw at unrhyw gamau lliniarol a nodwyd gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) i yrru a sicrhau gwelliannau. Mae'r gweithgareddau busnes arferol pwysig hyn wedi cael eu symud ymlaen yng nghyd-desun y pandemig coronafeirws ehangach. Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion i gadw staff a thrigolion yn ddiogel wedi dylanwadu ar y cyfnod, mae rhai adnoddau a chapasiti wedi'u hailgyfeirio, tra bod nifer o feysydd Gwasanaeth wedi wynebu heriau cynyddol yn yr hyn a gydnabyddir yn draddodiadol fel cyfnod anodd.

1.5. Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mehefin 2021.

## 2. CYD-DESTUN

2.1. Mae'r DPA monitro perfformiad yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan strategol y Cyngor:

- Amcan 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, tra'n amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

2.2. Ni fu modd adrodd ar yr holl ddangosyddion oherwydd y pandemig Covid-19 gan fod rhai o'n gweithgareddau dydd i ddydd wedi cael eu heffeithio oherwydd y cyfnod clo cenedlaethol a'r cyfyngiadau i argaeledd rhai o'n gwasanaethau.

2.3. Cytunwyd ar dargedau'r Cerdyn Sgorio eleni ar sail perfformiad y flwyddyn flaenorol ac ar sut mae'r pandemig coronafeirws wedi effeithio ar berfformiad y dangosyddion eleni (h.y. cau a lleihau rhai o'n gwasanaethau).

2.4. Mae delio gyda'r argyfwng Covid-19 wedi bod yn her sylweddol i'r Cyngor – nid yn unig cynnal gwasanaethau rheng flaen allweddol a chynnal busnes arferol lle bo'n bosib, ond hefyd wrth sicrhau bod trefniadau iechyd a diogelwch ar waith i warchod staff yr awdurdod wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i'n trigolion.

2.5. Yn ystod Chwarter 4, roedd Cymru'n parhau i fod mewn cyfnod clo cenedlaethol (lefel rhybudd 4) am y rhan fwyaf o'r cyfnod, hyd at 15 Mawrth pan laciwyd ychydig ar y cyfyngiadau. Mae'r cyfnod clo wedi cael effaith ar wasanaethau'r Cyngor ar ddechrau 2021/22, a bydd yn parhau i gael effaith, a thrafodir rhai ohonynt isod.

2.6. Roedd Chwarter 4 yn gyfnod arbennig o heriol wrth i'r ynys weld ei nifer uchaf o achosion positif o Covid-19, gyda chyfanswm o 1058 o achosion yn ystod y cyfnod a chlwstwr o achosion yn cael eu cadarnhau ar Ynys Gybi. Yn ystod rhan helaeth o'r cyfnod, Ynys Môn oedd â'r nifer uchaf o achosion fesul 100,000 o bobl yng Nghymru.

2.7. Cymerodd y Cyngor gamau cadarn ac amserol, yn cynnwys sefydlu Tîm Rheoli Achosion, cyflwyno profion cymunedol torfol, danfon dros 1800 o brofion PCR o ddrws i ddrws ac ail-bwysleisio'r rheoliadau ac ymddygiadau yn lleol.

2.8. O ganlyniad i'r ymateb ac ymyrraeth amlasiantaethol, llwyddwyd i reoli'r sefyllfa yn gyflym, gan osgoi lledaeniad cymunedol i gymunedau eraill ar Ynys Môn. Gellir gweld gwybodaeth bellach am ymateb y Cyngor i'r pandemig yma - <https://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=153&MId=3898&Ver=4&LLL=1>

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1. Mae'n galonogol nodi bod 87% o'r dangosyddion sy'n cael eu monitro yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2. Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged rheoli absenoldebau staff gyda 6.68 diwrnod yn cael eu colli am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn ystod y flwyddyn yn erbyn targed o 9.75 diwrnod. Mae hyn yn welliant sylweddol ar unrhyw flwyddyn ariannol ers dechrau monitro'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ac mae ar yr un lefel ag y gwelir ar ddiwedd Ch3 fel arfer. Mae'r canlyniad hwn yn un o'r ychydig welliannau y gellir eu gweld oherwydd y pandemig Covid-19, gan fod llai o gyswllt ag eraill wedi arwain at golli dim ond 1.94 diwrnod oherwydd salwch tymor byr fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn drwy gydol y flwyddyn.

3.3. Mae'r holl ddangosyddion o dan yr is-bennawd 'symud i wasanaethau digidol' wedi perfformio'n well nag yn y blynyddoedd blaenorol yn ystod y pandemig. Gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y taliadau ar y we yn Ch4, yn bennaf oherwydd y tâl

newydd am y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Gardd. Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau a'r ceisiadau drwy'r wefan hefyd am yr un rheswm.

3.4. Mae'r pandemig Coronafeirws wedi cael effaith sylweddol ar ddarpariaeth arferol gwasanaethau gan y Cyngor yn 2020/21 ac, o'r herwydd, nid yw'r perfformiad ariannol yn adlewyrchu'r hyn a fyddai'n digwydd mewn blwyddyn arferol. Mae'r tanwariant o £ 4.197m yn cael ei groesawu ac yn cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor wrth symud ymlaen, ond ni fyddai wedi'i gyflawni heb y cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r galw am wasanaethau yn y dyfodol yn hysbys eto ac er bod cyfeiriad y pandemig byd-eang yn edrych yn ffafriol, bydd yn her ymateb i'r gofynion yn dilyn y pandemig. Mae'n debygol y bydd y galw am wasanaethau'r Cyngor yn cynyddu yn 2021/22 wrth i'r cyfyngiadau coronafeirws llacio ac normalrwydd yn dychwelyd. Os felly ni fydd yn syndod os bydd Gwasanaethau yn gorwario ar eu cyllidebau yn ystod 2021/22 a bydd hyn yn cael ei gyllido o Falensau Cyffredinol y Cyngor.

3.5. Mae angen gwaith pellach i fodelu'r effaith a bydd Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2021, cyn cychwyn ar y broses gyllideb ar gyfer 2022/23.

3.6. Roedd y gyllideb gyfalaf cychwynnol ar gyfer 2020/21, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2020 yn £37.305m, a chydag ychwanegiad llithriad a chyllid grant pellach yn ystod y flwyddyn, cynyddodd y gyllideb gyfalaf derfynol ar gyfer 2020/21 i £58.425m. Y gwir wariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oedd £33.129m. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith drosglwyddo £11.898m o brosiectau ymlaen i raglen gyfalaf 2021/22 a bydd hyn yn dod â'r rhaglen gyfalaf 2021/22 i £48.053m.

3.7. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr 'Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw ar gyfer Ch4' a'r adroddiad 'Monitro Cyllideb Cyfalaf ar gyfer Ch4' a fydd yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 21 Mehefin.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1. Mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar nifer o'r DPA sy'n cael eu monitro trwy'r Cerdyn Sgorio. Ar ddiwedd y flwyddyn, yn achos 13 o'r dangosyddion (28% o'r dangosyddion) roedd Llywodraeth Cymru wedi canslo'r angen i gasglu data ar eu cyfer neu nid yw'r data'n cael ei gasglu ar hyn o bryd am resymau sydd tu hwnt i'n rheolaeth.

4.2. Mae'r rhesymau dros y rheini sydd wedi'u heffeithio yn cynnwys y DPA sy'n gysylltiedig â:

- Dangosyddion y Gwasanaeth Dysgu (eitemau 1-7) – roedd ysgolion ar gau tan fis Medi a chanslwyd arholiadau. Mae llyfrgelloedd hefyd wedi bod ar gau.
- Tai (eitemau 18, 31-32, 34) – mae dangosyddion digartrefedd gan Lywodraeth Cymru wedi'u hatal. Oherwydd y pandemig, mae oedi pellach wedi effeithio ar feddalwedd newydd i fesur boddhad cwsmeriaid.
- Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (eitemau 8, 11-12) – bu Canolfannau Hamdden ar gau a dim ond yn raddol yr ail-agorwyd nhw

dros yr haf. Mae hyn wedi arwain at lawer iawn llai o ymweliadau ac o ganlyniad roedd yn amhosibl gosod unrhyw dargedau ystyrlon. Mae'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) hefyd wedi'i atal oherwydd y pandemig coronafeirws.

- Gwasanaethau Oedolion (eitem 19) – mae'r dangosydd Oedi wrth Drosglwyddo Gofal wedi'i atal oherwydd y gwaith hanfodol a wneir gan y GIG yn ystod y pandemig coronafeirws.

4.3. Ar ddiwedd blwyddyn heriol i bawb, ar gyfer y dangosyddion sy'n weddill ac y byddir yn adrodd arnynt ar ddiwedd y flwyddyn (33 dangosydd), mae'n galonogol nodi bod y mwyafrif (70%) ohonynt yn perfformio'n uwch na'r targedu neu o fewn 5% i'w targedau. Dylid dathlu'r llwyddiannau hyn wrth ddrafftio'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol y craffir arno yn ddiweddarach eleni.

4.4. Mae'n gryn bleser gweld canlyniadau dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (eitemau 19-24) yn ystod cyfnod pan oedd y gwasanaeth dan bwysau sylweddol iawn oherwydd y pandemig Covid-19. Mae pob dangosydd a gafodd eu monitro yn ystod y flwyddyn wedi cyrraedd eu targedau ac mae 80% (4 allan o'r 5) wedi perfformio'n well neu wedi cynnal y perfformiad a welwyd yn 2019/20.

4.5. Mae dangosyddion y Gwasanaeth Tai (eitemau 13-18 a 31-36) sydd ar gael i'w dadansoddi hefyd wedi perfformio'n gryf yn erbyn eu targedau yn ystod blwyddyn anodd. Mae 78% o'r dangosyddion (7 o'r 9) yn well na'r targedau ar gyfer y flwyddyn tra bod y 2 sy'n weddill, y mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio arnynt, yn cael eu trafod isod.

4.6. Mae dangosyddion Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (eitemau 25-30) hefyd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn gyda 83% o'r dangosyddion (5 allan o 6) naill ai yn uwch na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau.

4.7. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod deg o ddangosyddion wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau blynyddol ac maent yn cael eu hamlygu fel rhai Coch neu Ambr yn y Cerdyn Sgorio.

4.8. Mae perfformiad ar gyfer **Amcan 1** wedi bod yn dda gan mai dim ond dau ddangosydd a nodwyd a oedd yn tanberfformio.

4.8.1. Dangosydd 3 – Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth (NEET) – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 4.2% yn erbyn targed o 3%

*Cyhoeddwyd y dangosydd hwn gan Gyrfa Cymru ar ôl cymryd arolwg ym mis Tachwedd 2020 ar y rhai nad ydynt mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth (NEET) ac yn gadawyr blwyddyn 11 ym mis Mai 2020. Mae'r perfformiad yn golygu bod y Cyngor yn y chwartel isaf ar gyfer y dangosydd hwn ar gyfer y flwyddyn. Er bod y pandemig Covid-19 yn ddi-os wedi cael effaith ar berfformiad y dangosydd hwn, gan nad oedd swyddogion yn gallu ymweld â chartrefi'r bobl ifanc, roedd ffactorau eraill yn amlwg hefyd.*

*Mae Swyddogion Ieuenctid yn gweithio'n agos â'r bobl ifanc sy'n NEETs unwaith y derbynnir eu henwau gan Gyrfa Cymru. Yn anffodus eleni,*

*oherwydd amgylchiadau tu hwnt i'n rheolaeth, nid oeddem yn ymwybodol o'r unigolion tan fis Tachwedd, pan gynhaliwyd yr arolwg. Codwyd hyn yn ffurfiol gyda Gyrfa Cymru.*

*Wrth edrych ymlaen, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi cytuno â Gyrfa Cymru ar weithdrefn newydd i'w ddilyn ar gyfer 2021. Sefydlwyd panel Blwyddyn 11 hefyd, gydag aelodau'n cynrychioli TRAC, Gyrfa Cymru, Grŵp Llandrillo Menai, Swyddogion Lles, Cyfiawnder Ieuenctid ac eraill, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r problemau. Bydd systemau eraill sydd eisoes ar waith yn cael eu defnyddio hefyd i wella'r perfformiad hwn yn y dyfodol.*

4.8.2. Dangosydd 10 – Canran y busnesau risg uchel oedd yn agored i ymchwiliadau wedi'u trefnu a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Hylendid Bwyd – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 43% yn erbyn targed o 80%, sydd yn well na'r 13% a gynhaliwyd hyd at ddiwedd Ch3.

*Effeithiwyd ar y gwaith hwn gan y pandemig Covid-19, lle nad oedd ond modd cynnal 35 o'r 159 o arolygiadau a gynlluniwyd ers mis Ebrill 2020. Roedd hyn oherwydd bod Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn canolbwyntio ar waith yn gysylltiedig â rheoli haint a Covid-19 yn ystod y pandemig. Mae'r holl achosion y tynnir sylw'r Tîm Iechyd yr Amgylchedd atynt gan y tîm Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) yn cael eu hymchwilio sy'n golygu nad oes bron dim capasiti ar gael i gynnal archwiliadau hylendid bwyd.*

*Er ein bod wedi cyflogi Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ymgynghorol i gynorthwyo gyda diogelwch bwyd, mae'r gwaith wedi cael ei lesteirio oherwydd bod busnesau ar gau ac oherwydd y cyfnodau clo. Defnyddiwyd unrhyw adnoddau oedd ar gael i ymateb i ganllawiau blaenoriaethu'r Asiantaeth Safonau Bwyd, h.y. safleoedd gradd A a safleoedd risg uchel B, ymchwilio i gwynion a darparu canllawiau i fusnesau newydd. Yn ogystal, mae dirywiad mewn safonau ac achosion o fethu â chydymffurfio yn y safleoedd hynny a archwiliwyd yn golygu y gall gymryd llawer mwy o amser i'w datrys.*

4.9. Roedd perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan 2** yn dda hefyd ac yn dangos bod tri dangosydd o'r 16 a gafodd eu monitro (19%) yn tanberfformio yn erbyn eu targedau blynyddol.

4.9.1. Dangosydd 27 – Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 32% yn erbyn targed o 10%. Mae hyn yn well na'r ffigwr o 35% a welwyd ar ddiwedd Ch3. Fodd bynnag, mae'n tanberfformio o gymharu â'r ffigwr o 12.75% a gofnodwyd ar ddiwedd 2019/20.

*Ar ôl adolygu ffeiliau achos y plant sydd wedi cael ailasesiad yn ystod y flwyddyn, canfuwyd eu bod oll wedi eu hail-gyfeirio'n briodol i'r gwasanaeth. Roedd pob un wedi'u hail-gyfeirio oherwydd rhesymau newydd a sefyllfaoedd a oedd yn codi na ellid bod wedi eu rhagweld na'u hatal.*

4.9.2. Dangosydd 35 – Nifer y dyddiau calendr a gymerir ar gyfartaledd i osod uned llety y mae modd eu gosod (ac eithrio Unedau Anodd eu Gosod) – sydd yn

GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 45.6 diwrnod yn erbyn targed o 26 diwrnod. Mae hyn yn well na'r 62.1 diwrnod a welwyd ar ddiwedd Ch3.

*Oherwydd y pandemig, ni fu modd gosod ein Stoc Tai Cyngor mor gyflym ag arfer a hynny'n bennaf oherwydd bod rhaid cydymffurfio â deddfwriaeth coronafeirws a rheolau pellter cymdeithasol.*

*Mae mwy o unedau bellach yn cael eu gosod, fel y gwelir o'r gwelliant mewn perfformiad. Fodd bynnag, mae'r cyfnod clo wedi cael effaith ar unrhyw welliant pellach.*

4.9.3. Dangosydd 36 – Gwasanaethau Landlord: Mae canran y rhent a gollir oherwydd bod eiddo'n wag yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda 1.98% wedi'i golli yn erbyn targed o 1.50%, ond mae hyn ychydig yn well na'r 2.09% a welwyd ar ddiwedd Ch3.

*Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y dangosydd hwn a'r dangosydd a drafodir uchod. Gan ei bod yn cymryd mwy o amser i osod unedau llety mae swm y rhent a gollir yn uwch.*

4.9.4. Mae perfformiad yn erbyn dangosyddion **Amcan 3** wedi bod yn gymysg yn sgil effaith y pandemig. Mae pum dangosydd o'r 10 (50%) a gafodd eu monitro ar gyfer yr amcan hwn wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau blynyddol.

4.9.5. Dangosydd 38 - Canran y gwastraff wedi'i ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio - sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 62.96%.

*Mae'r dangosydd hwn yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni y targed hirdymor a osodwyd gan Lywodraeth Cymru o ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio 70% o wastraff erbyn 2025, ond mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar berfformiad y dangosydd hwn gan fod y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig ar gau ddechrau'r flwyddyn.*

*Cyflwynwyd system archebu ar-lein/dros y ffôn pan ganiatawyd i'r Canolfannau Ailgylchu ailagor, ond mae'r galw wedi aros yn isel gyda nifer o gannoedd o apwyntiadau heb eu llenwi bob mis. Mae'r ffaith bod y canolfannau wedi bod ar agor am lai o amser a'r gostyngiad yn y galw wedi golygu bod ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Domestig wedi derbyn llai o dunelli o ddeunyddiau ailgylchu ac mae hynny yn ei dro wedi effeithio ar ein perfformiad.*

*Yn ogystal â'r uchod, mae'r contractwr trin sgubion stryd wedi cael problemau wrth brosesu rhai elfennau o'r deunyddiau ailgylchu o sgubion stryd y mae'n eu derbyn gan y Cyngor yn ystod y pandemig Covid-19. Golyga hyn y bu oedi wrth brosesu/cyfrif y tunelli o ddeunyddiau ailgylchu a fyddai fel arfer yn cael eu cynnwys yng nghyfanswm cyffredinol y Cyngor (mae hyn wedi effeithio ar chwarter 3 a 4 2020/21).*

*Mae swyddogion wedi cytuno ar gynllun gweithredu gyda'r contractwr trin sgubion stryd er mwyn sicrhau bod y deunydd yn cael ei brosesu heb oedi ac*

*maent wedi sefydlu datrysiad trin wrth gefn hefyd. Mae swyddogion yn trafod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru hefyd er mwyn sicrhau bod yr holl hawliadau ar gyfer pwysau'r deunyddiau ailgylchu'n cael eu cwblhau yn unol â'r canllawiau.*

4.9.6. Dangosydd 41 – Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn yr amser – sydd yn GOCH gyda 79% yn erbyn targed o 90%. Mae hyn yn is na'r 90% a welwyd ar ddiwedd 2019/20.

*Mae hwn yn ddangosydd arall y mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio arno, lle bu'n rhaid atal archwiliadau safle a gofynion hysbysebu. Mae cyfyngiadau ar ymweliadau safle drwy gydol y flwyddyn ar gyfer swyddogion a'r Pwyllgor Cynllunio wedi ei gwneud yn anodd i'r Swyddogaeth Cynllunio berfformio cystal ag yn y gorffennol. Mae amryw o ffactorau eraill wedi effeithio ar y canlyniad hwn yn cynnwys ôl-groniad o geisiadau hanesyddol, swydd wag o fewn y gwasanaeth, a capasiti cyfyngedig mewn perthynas â nifer y ceisiadau newydd a chwiliadau tir.*

*Addaswyd arferion gwaith yn barod a chedwir llygaid arnynt mewn ymateb i'r cynnydd yn y galw. Bydd cyfleoedd yn cael eu nodi hefyd yn y dyfodol agos i gryfhau capasiti'r Swyddogaeth Cynllunio, drwy gyfrwng y Cynllun Gwella Cynllunio.*

4.9.7. Dangosydd 43 – Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – sy'n GOCH gyda pherfformiad o 58% yn erbyn targed o 65%. Mae hyn yn well na'r 55% a welwyd ar ddiwedd Ch3. Fodd bynnag, mae'n is na'r 78% a welwyd ar ddiwedd 2019/20.

*Nid yw'r dangosydd hwn ond yn ymwneud â niferoedd bach iawn a gellir priodoli'r perfformiad ar ddiwedd y chwarter hwn i'r ffaith bod 7 o'r 12 o apeliadau wedi eu cadarnhau. Mae'r dangosydd hwn yn dibynnu ar y math o geisiadau a dderbynnir ac mae'n anochel y bydd rhai apeliadau cynllunio yn llwyddiannus. Roedd rhai o'r apeliadau a wrthodwyd yn ymwneud â cheisiadau am dai newydd i gymryd lle tai presennol a nodwyd eisoes bod pryder ynghylch dehongliad swyddogion.*

*Cynhaliwyd trafodaeth gyda'r Adran Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ystod y flwyddyn i sicrhau cysondeb yn y penderfyniadau a/neu ddehongliad swyddogion o'r ceisiadau er mwyn lleihau nifer yr apeliadau cynllunio llwyddiannus.*

4.9.8. Dangosydd 43 – Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod – sy'n AMBR gyda pherfformiad o 74% yn erbyn targed o 80%. Mae'r perfformiad hwn yn gyson â'r 74% a gyflawnwyd ar ddiwedd 2019/20.

*Mae'r pandemig wedi parhau i effeithio ar berfformiad y dangosydd hwn gyda'r archwiliadau safle a'r cyfarfodydd arferol yn cael eu cynnal mewn ffordd wahanol ac yn rhithiol lle bynnag y mae'n bosib. Gwelwyd cynnydd da yn ystod y chwarter gan yr ymchwiliwyd i 75% o achosion (87 allan o 116 achos) er gwaetha'r ffaith y derbyniwyd 45% o gyfanswm y cwynion*

*gorfodaeth yn ystod chwarter olaf y flwyddyn (116 achos o'r 256 a dderbyniwyd drwy gydol y flwyddyn).*

4.9.9. Dangosydd 44 – Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael – sydd yn AMBR gyda chanlyniad o 4.6% yn erbyn targed o 3%. Mae perfformiad wedi gostwng o gymharu â 4% ar ddiwedd 2019/20.

*Y rheswm pennaf am danberfformiad y dangosydd hwn yw'r cyllid sydd ar gael i gadw amodau'r ffyrdd mewn cyflwr da. Fodd bynnag, ni chwblhawyd yr arolwg SCANNER, a gynhelir yn yr hydref fel arfer, tan y gaeaf eleni. Roedd hyn am fod y contractwr wedi ei leoli yn Lloegr ac nid oedd yn gallu cwblhau'r gwaith yn gynharach oherwydd y cyfyngiadau Covid-19 oedd mewn lle ar y pryd. Mae'n debygol bod y ffaith i'r gwaith hwn gael ei wneud yn hwyr wedi cael effaith negyddol ar berfformiad y dangosydd hwn oherwydd effaith y tywydd oer.*

*Fodd bynnag, mae'n debygol bod gostyngiad yn y traffig ar ein ffyrdd oherwydd Covid-19 wedi arwain at lai o ôl traul ar y rhwydwaith ffyrdd drwy gydol y flwyddyn nag y disgwylir mewn blwyddyn arferol. Pe bai'r traffig arferol ar y rhwydwaith ffyrdd, yna mae'n debyg y byddai wedi arwain at ganlyniad gwaeth na'r un sy'n cael ei adrodd.*

*Yn ogystal, nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi yng nghyflwr yr A5025 o'r Fali i Amlwch oherwydd cynigion am fuddsoddiadau ar gyfer Wylfa Newydd. Adlewyrchir y tanfuddsoddiad hwn yng nghanlyniadau'r arolwg ar gyfer y ffyrdd dosbarth A.*

*Yn ystod 2021/22 ymdrechir i wella cyflwr y ffyrdd dosbarth A, yn ddibynnol ar y cyllid fydd ar gael a chanlyniadau'r arolwg SCANNER o gyflwr y ffyrdd.*

4.10. Mae ein perfformiad o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer yr holl ddangosyddion y gellir eu cymharu (cyfanswm o 33) yn dangos bod 19 (58%) wedi gostwng yn ystod y flwyddyn, 9 (27%) wedi gwella a 5 (15%) wedi cynnal eu lefel perfformiad.

4.11. Dengys y canlyniad hwn hefyd bod y pandemig Covid-19 wedi cael effaith fawr ar lefel ein perfformiad. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod 78% o ddangosyddion yn well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau yn rhoi hyder bod perfformiad ar gyfer y flwyddyn yn gadarnhaol ar y cyfan, o dan amgylchiadau eithriadol o anodd.

4.12. Eleni, ni fydd yn bosib amcangyfrif sut mae ein perfformiad yn cymharu â pherfformiad cenedlaethol yn 2019/20 oherwydd i waith meincnodi'r Mesurau Asesu Perfformiad (PAM) gael ei ohirio ar ddechrau'r flwyddyn. Fodd bynnag, cytunwyd y byddai Awdurdodau Lleol yn cyflwyno eu dangosyddion perfformiad ar gyfer 2019/20 a 2020/21 i Data Cymru yn ystod yr wythnosau nesaf. Yn dilyn hynny, dylai data fod ar gael i'w ddadansoddi yn ddiweddarach eleni er mwyn i ni gael gwell dealltwriaeth o faint o effaith mae'r pandemig Covid-19 wedi'i gael ar ein gwasanaethau o gymharu ag eraill. Rhennir y dadansoddiad hwn yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol a fydd yn cael ei gyflwyno i sgrwtini yn yr hydref.

4.13. Yn gyffredinol, eleni fu'r cyfnod anoddaf ers sefydlu'r Cyngor hwn. O ystyried ein bod wedi cychwyn y flwyddyn yn wynebu ansicrwydd sylweddol yng nghanol

pandemig byd-eang, mae'n rhyfeddol pa mor dda oedd perfformiad ar y cyfan. Mae staff y Cyngor wedi gweithio'n ddiflino drwy gydol y flwyddyn ac mae nifer o staff wedi cyflawni rolau nad oeddent yn bodoli cyn y pandemig. Mae llawer iawn staff eraill wedi cyflawni eu dyletswyddau ar wahân i'w cydweithwyr ac wedi gorfod gweithio mewn ffyrdd newydd a oedd yn aml yn heriol. Dylid dathlu ymdrechion staff i ddarparu gwasanaethau i'n trigolion oherwydd heb eu hymdrechion a'u hyblygrwydd, ni fyddai'r Cyngor yn y sefyllfa gadarnhaol y mae ynddo heddiw.

## 5. ARGYMHELLION

5.1. Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol, ac a oedd eleni yn ychwanegol i reoli argyfwng difrifol, sef y pandemig Covid-19. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

5.1.1. Yn gyffredinol, dylid cynnal a gwella perfformiad ac yn achos y dangosyddion sydd yn is na'r targed, dylid cymryd y camau lliniaru a nodwyd i gynorthwyo gwelliant yn ystod 2021/22.

5.1.2. Cynnal gweithdy gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Aelodau Etholedig cyn gynted â phosib i gadarnhau'r dangosyddion perthnasol i'w cynnwys yn y cerdyn sgorio ar gyfer 2021/22.

5.1.3. Adolygu targedau 21/22 er mwyn sicrhau eu bod yn heriol ond yn gyraeddadwy a lle bo'r pandemig coronafeirws yn effeithio ar dargedau, eu bod yn cael eu nodi a'u diweddaru drwy gydol y flwyddyn.

5.2. Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2020/21

| Rheoli Perfformiad / Performance Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Tuedd Bl i Fl / Yr on Yr Trend | Canlyniad 19/20 Result | Canlyniad 18/19 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir** | | | | | | | |
| 1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) | CV-19 | - | - | 94.60% | - | 94.90% | 94.60% |
| 2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) | CV-19 | - | - | 94.40% | - | 93.90% | 94.40% |
| 3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4) | Coch / Red | - | 4.2% | 3% | ↓ | 2% | 1.10% |
| 4) Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 (blynyddol) (Ch3) | CV-19 | - | - | 349 | - | 345.4 | 349.1 |
| 5) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | - | 87.50% | 88.30% |
| 6) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | - | 65.01% | 65% |
| 7) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch3) | CV-19 | - | - | 75% | - | 75% | 82% |
| 8) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden | CV-19 | - | 28k | - | - | 530k | 553k |
| 9) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd | Gwyrdd / Green | → | 98% | 95% | → | 98% | 98% |
| 10) Canran y busnesau risg uchel oedd yn agored i ymchwiliadau wedi'u trefnu a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd [Dangosydd Lleol] | Coch / Red | ↑ | 43% | 90% | ↓ | 92% | - |
| 11) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff | CV-19 | - | - | 50% | - | 75% | 70% |
| 12) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff | CV-19 | - | - | 80% | - | 84% | 83% |
| 13) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd | Gwyrdd / Green | ↑ | 94 | 75 | ↓ | 104 | 78 |
| 14) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag | Gwyrdd / Green | ↑ | 9 | 4 | ↑ | 7 | 9 |
| 15) Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | 53 | - | 124 | 53 |
| 16) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) | Gwyrdd / Green | → | 100% | 100% | → | 100% | 100% |
| 17) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau | Gwyrdd / Green | ↑ | 8.1 | 12 | ↑ | 16.44 | 13.63 |
| 18) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) [Dangosydd Lleol] | CV-19 | - | - | - | - | | - |
| **Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl** | | | | | | | |
| 19) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | CV-19 | - | - | 3 | - | 6.88 | 7.78 |
| 20) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Gwyrdd / Green | ↓ | 92.31% | 90% | ↑ | 91.30% | 90.91% |
| 21) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | → | 50% | 35% | → | 50% | 30.87% |
| 22) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | Gwyrdd / Green | ↑ | 60.36% | 62% | ↓ | 63.08% | 62.84% |
| 23) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | ↑ | 15.36 | 19 | ↑ | 17.57 | 17.35 |
| 24) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 98.20% | 93% | ↑ | 98.00% | 93.30% |
| 25) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser | Melyn / Yellow | ↑ | 86.87% | 90% | ↓ | 89.62% | 86.17% |
| 26) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | Melyn / Yellow | ↓ | 12.34% | 10.00% | ↓ | 8.39% | 9.52% |
| 27) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol] | Coch / Red | ↓ | 32.00% | 10% | ↓ | 12.75% | 16.96% |
| 28) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn | Gwyrdd / Green | ↑ | 258 | 270 | ↓ | 224 | 241 |
| 29) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith | Gwyrdd / Green | ↑ | 99.56% | 95% | ↑ | 98.88% | 98% |
| 30) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Melyn / Yellow | → | 87.74% | 90% | ↑ | 86.30% | 86.17% |
| 31) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Gwyrdd / Green | - | 74.74% | 70% | ↓ | 74.91% | 55.10% |
| 32) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref [Dangosydd Lleol] | Gwyrdd / Green | - | 75.47% | 70% | ↓ | 77.70% | |
| 33) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | Gwyrdd / Green | ↓ | 169 | 170 | ↓ | 159.58 | 161.9 |
| 34) Penderfyniad wedi ei wneud ar Achosion Digartrefedd o fewn 56 diwrnod (blynyddol) (Ch4) | CV-19 | - | - | - | - | | - |
| 35) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) | Coch / Red | ↑ | 45.6 | 26 | ↓ | 21.9 | - |
| 36) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag | Coch / Red | ↑ | 1.98% | 1.50% | ↓ | 1.42% | 1.30% |
| **Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol** | | | | | | | |
| 37) Canran y strydoedd sy'n lân | Melyn / Yellow | - | 92.00% | 95% | ↓ | 93.79% | 95.60% |
| 38) Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | Coch / Red | ↑ | 62.96% | 70% | ↑ | 67.26% | 69.86% |
| 39) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | Gwyrdd / Green | → | 0.95 | 1 | ↑ | 0.96 | 0.2 |
| 40) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person | Gwyrdd / Green | ↓ | 214kg | 240kg | ↓ | 206.17kg | 240kg |
| 41) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | Coch / Red | → | 79% | 90% | ↓ | 90% | 80% |
| 42) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd | Coch / Red | ↑ | 58% | 65% | ↓ | 78% | 74% |
| 43) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | Ambr / Amber | ↑ | 74% | 80% | → | 74% | - |
| 44) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | Ambr / Amber | - | 4.60% | 3.0% | ↓ | 4% | 2.90% |
| 45) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | - | 3.80% | 4.0% | → | 3.80% | 3.80% |
| 46) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) (Ch4) | Gwyrdd / Green | - | 8.50% | 8.7% | ↓ | 8.20% | 8.70% |

Coch - mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol     Ambr - rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn - o fewn 5% o'r targed     Gwyrdd - ar darged neu'n uwch     Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter     Adroddir ar yr holl ddangosyddion uchod yn genedlaethol oni nodir yn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q4 2020/21

| Gofal Cwsmer / Customer Service | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 19/20 Result | Canlyniad 18/19 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter** | | | | | | |
| 01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | Gwyrdd / Green | ↑ | 43 | 67 | 67 | 76 |
| 02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbynnwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | ↑ | 6 | - | - | 8 |
| 03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol | | ↓ | 8 | - | - | 27 |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | Gwyrdd / Green | ↓ | 88% | 80% | 94% | 93% |
| 04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | Melyn / Yellow | ↓ | 75% | 80% | - | 57% |
| 05) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol | | ↓ | 24 | - | - | 44 |
| 06) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol) | | ↓ | 104 | - | 136 | 62 |
| 07) Nifer o ganmoliaethau | | ↑ | 662 | - | 618 | 513 |
| 08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen | Melyn / Yellow | ↓ | 79.4% | 80% | 82% | 81% |
| 09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd | | ↑ | 736 | - | 903 | 1052 |
| **Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift** | | | | | | |
| 10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol) | - | ↑ | 33.5k | - | 15k | 8.2k |
| 11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn | - | ↑ | 58k | - | 10.8k | 4.7k |
| 12) Nifer o daliadau dros y we | - | ↑ | 18.5k | - | 13k | 11k |
| 13) Nifer o daliadau dros y ffôn | - | ↑ | 7k | - | 6.5k | 5k |
| 14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol | - | ↑ | 42k | 29.5k | 33k | 29.5k |
| 15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor | - | ↑ | 1.03M | - | 783k | - |

| Rheoli Pobl / People Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Canlyniad / Actual | Targed / Target | Canlyniad 19/20 Result | Canlyniad 18/19 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 2180 | | 2181 | 2243 |
| 02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | - | - | 1214 | - | 1230 | 1252 |
| 03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↑ | 6.68 | 9.75 | 9.4 | 10.34 |
| 03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 1.94 | - | 4.2 | 4.68 |
| 03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | - | - | 4.74 | - | 5.2 | 5.66 |
| 04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↓ | 4.23 | 9.5 | 7.98 | 12.21 |
| 04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd | - | - | 1.45 | - | 4..17 | 4.97 |
| 04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul | - | - | 2.78 | - | 3.81 | 7.24 |
| 05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE | Gwyrdd / Green | ↓ | 4.34 | 9.5 | 9.61 | 9.57 |
| 05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd | - | - | 1.37 | - | 4.58 | 5.26 |
| 05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd | - | - | 2.97 | - | 5.03 | 4.31 |
| 06) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4) | - | ↓ | 6% | - | 9% | 11% |
| 07) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Blynyddol) (Ch4) | - | - | | 80% | 80% | 86% |

| Rheolaeth Ariannol / Financial Management | CAG / RAG | Tuedd / Trend | Cyllideb / Budget | Canlyniad / Actual | Amrywiant / Variance (%) | Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual | Amrywiant a Ragwelir / Forcasted Variance (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 02) Alldro diwedd blwyddyn (Refeniw) | Gwyrdd / Green | | £142,146,320 | £137,789,926 | -3.06% | - | - |
| 03) Alldro diwedd blwyddyn (Cyfalaf) | | ↓ | £39,393,000 | £20,507,000 | -47.94% | - | - |
| 04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd | Coch / Red | → | £307,000 | £244,000 | -20.52% | - | - |
| 05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau) | Coch / Red | ↑ | -£12,912,395 | -£10,282,383 | -20.37% | - | - |
| 06) Swm a fenthycwyd | | → | £4,836,000 | £0 | -100.00% | - | - |
| 07) Chost benthyca | Gwyrdd / Green | ↑ | £4,226,060 | £4,163,572 | -1.48% | - | - |
| 08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | Melyn / Yellow | ↑ | - | 83.57% | - | - | - |
| 09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | → | - | 98.48% | - | - | - |
| 10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Gwyrdd / Green | → | - | 99.34% | - | - | - |
| 11) % yr Amrywiol Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | - | - | - | - | - | - |
| 12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf) | Melyn / Yellow | ↑ | - | 100.26% | - | - | - |
| 13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf) | - | ↑ | - | 100.45% | - | - | - |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 7 Mehefin 2021 |
| **Pwnc:** | Effaith Covid ar Wasanaethau Digartrefedd |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Hysbysu'r Pwyllgor ynghylch materion o ran digartrefedd yn ystod Covid |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Aled Morris Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Alun Mummery |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Ned Michael |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Elliw Llyr<br>01248752137<br>ElliwLlyr@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Derbyn gwybodaeth ynghylch yr ymateb i Covid a digartrefedd a sgriwtineiddio'r ymateb. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir,<br>cefnogi oedolion a theuluoedd bregus a'u cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl. |

**3 – Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Aelodau Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio

- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 – Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

i. Pa heriau mae'r Cyngor wedi'u hadnabod wrth gefnogi unigolion digartref yn ystod y Pandemig?
ii. Beth oedd yr arfer da a prif bwyntiau dysgu i'r Cyngor dros y cyfnod diwethaf a sut y bwriedir defnyddio'r dysgu hynny i siapio darpariaeth gwasanaethau i'r dyfodol?
iii. A oes cydweithio effeithiol wedi cymryd lle dros gyfnod y pandemig wrth ymateb i faterion digartrefedd?

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

Fel llawer o wasanaethau eraill ar draws y Cyngor a phartneriaid, mae'r Gwasanaeth Digartrefedd wedi gweld cynnydd yn y galw yn ystod Covid. Ers cau Cyswllt Môn, cynhaliwyd yr holl weithgaredd o ran digartrefedd dros y ffôn neu ar blatfformau digidol, gyda chymorth yn cael ei ddarparu o bell a thrwy ein darparwyr cymorth. Yn flaenorol, byddai cleientiaid yn cael eu gwahodd i fynychu apwyntiad wedi'i drefnu yn Cyswllt Môn, neu'n disgwyl am yr apwyntiad cyntaf a oedd ar gael y gellid ei gynnig ar y diwrnod hwnnw.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru (LIC) yn gyflym i'r pandemig a chyflwynodd arweiniad y dylid lletya pob unigolyn ac aelwyd fel ymateb i bolisi iechyd cyhoeddus o ran sicrhau bod pobl yn gallu diogelu eu hunain rhag Covid. Roedd angen i bob Awdurdod Lleol (ALl) fynd ati'n gyflym i asesu nifer yr unedau llety brys a oedd ar gael, ynghyd â chanfod unedau ychwanegol nad oedd modd pennu eu nifer ar y pryd nac am faint o amser y byddai eu hangen.

Aethpwyd ati ar unwaith i lunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â hyn, gyda chapasiti ychwanegol ei ganfod o ran llety brys, fel Ciando, Prifysgol Bangor, ynghyd ag archwilio llety mewn Parciau Carafanau lleol ond heb fawr o ymateb o ran cynnig capasiti ychwanegol yn ffurf unedau o ganlyniad i amryw resymau. Fel rhan o'r ymateb hwn, rhoddwyd caniatâd datblygu a ganiateir ar gyfer Bunkabins ym Mhlas Penlan, Llangefni, a oedd yn darparu llety o fath 'portacabin' hunangynhwysol ar gyfer 8 unigolyn. Darparwyd cymorth ychwanegol i eiddo a oedd yn darparu llety brys (yr oedd y mwyafrif ohonynt yn sefydliadau Gwely a Brecwast) yng nghyfnod cychwynnol Covid, i sicrhau bod cyflenwad digonol o PPE i gynorthwyo lles cleientiaid yn ystod yr ychydig fisoedd cyntaf pan nad oedd yn hawdd cael gafael ar PPE.

Yn ystod 2020-21, cysylltodd 782 o aelwydydd â'r Gwasanaethau Tai am gyngor a chymorth, o gymharu â 652 yn 2019-20. O'r niferoedd hyn, roedd mwyafrif y rhai a oedd yn datgan eu bod angen cymorth (66%) yn aelwydydd un oedolyn sengl a 27% yn aelwydydd â phlant. Mae ynda 102 o gyflwyniadadau wedi bod yn ystod y ddau fis cyntaf 2021-22.

Mae aelwydydd yn cysylltu â'r Gwasanaeth am y rhesymau a ganlyn, yn unol â nifer uchaf y rhai sy'n datgan eu bod yn ddigartref:-
Chwalu perthynas
Perthnasau neu ffrindiau yn methu rhoi llety mwyach
Eiddo anaddas
Rhiant yn methu rhoi llety neu'n methu gwneud hynny mwyach

Roedd nifer yr aelwydydd a leolwyd mewn llety brys yn ystod 2020-21 yn amrywio rhwng 27 i 63 o unigolion a theuluoedd bob noson. Dyma'r nifer uchaf a mwyaf cyson o aelwydydd y mae'r Gwasanaeth wedi darparu ar eu cyfer. Mewn cymhariaeth, lleolwyd rhwng 3 a 26 o aelwydydd mewn llety brys bob noson yn ystod 2019-20. Rydym eisoes wedi gweld tua 52-53 o aelwydydd mewn llety brys bob noson yn ystod Ebrill 2021.

Roedd cost lletya unigolion mewn llety brys yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig.

Nid oes angen llety brys ar bob aelwyd, ond o dan y Ddeddf Tai, gall pob unigolyn gael mynediad i gyngor a chymorth o dan y Ddeddf. Os oes rheswm i gredu bod yr unigolyn yn ddigartref, neu ei fod dan fygythiad o ddigartrefedd, mae dyletswydd ar y Cyngor i asesu ac archwilio ei sefyllfa.

Mae'r cynnydd o ran aelwydydd sy'n datgan eu bod yn ddigartref, ynghyd â'r cynnydd mewn niferoedd sydd angen llety brys, wedi golygu bod cynnydd o ran y llwyth achosion i swyddogion sy'n cynnwys arweinydd tîm a 4 swyddog arall. Mae swyddogion yn ysgwyddo nifer uwch o lwythi achosion oherwydd nad ydynt yn gallu terfynu'r ddyletswydd ddigartrefedd gan na fu llety ar gael, neu fod y ddyletswydd wedi dod i ben ond nad yw'r aelwyd yn gallu symud ymlaen, er enghraifft, gan nad oes unrhyw unedau rhent preifat neu gymdeithasol ar gael.

Mae'r Tîm Asesu Tai yn dîm bach o staff mewnol profiadol. O ran elfennau statudol y gwaith a gyflawnir gan y Tîm hwn, h.y. bod yn gyswllt ar gyfer aelwydydd sy'n ddigartref, rhoi cymorth i atal digartrefedd, cynnal asesiad, llunio cynllun tai/cymorth a darparu llety dros dro pan fo'n briodol, y prif nod yw ailgartrefu unigolion yn barhaol mewn llety addas.

Gwnaed penodiad i swydd dros dro ar gyfer Swyddog Asesu Tai ychwanegol, a fydd yn dechrau ym mis Mai. Mae ad-drefnu dyletswyddau presennol wedi galluogi defnyddio dull brysbennu i asesu galwadau cychwynnol i'r Gwasanaeth a blaenoriaethu yn unol â'r risg o ddigartrefedd neu'r risg o niwed o ganlyniad i drais domestig neu fygythion eraill.

Darparwyd cymorth ychwanegol hefyd i aelwydydd gyda chyfanswm cyllid o £243k yn cael ei ddyfarnu i ddarparu rhagor o swyddogion i ddelio ag anghenion o ran cymorth.

Rhoddwyd y cyllid hwn i ddarparwyr presennol sy'n cynnwys y Wallich, Digartref, Cais, y Tîm Cymorth Tai, i ategu'r dyraniad Grant Cymorth Tai (HSG). Dyfarnwyd y gronfa ychwanegol hon trwy gyllid grant Cam 2 Grant Cefnogaeth Tai ar gyfer 2020-21.

Gwelodd y Tîm gynnydd yn nifer y bobl â phroblemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, pobl hŷn, aelwydydd sy'n profi trais domestig a phobl ifanc yn cael eu heithrio o blith eu teuluoedd neu ffrindiau. Mae atgyfeiriadau i'r Grant Cymorth Tai yn cefnogi'r wybodaeth o ran y data hwn, gyda phroblemau iechyd meddwl trais domestig a chwalu perthnasau'n brif resymau dros gael mynediad i gymorth. Yn aml, mae pobl sy'n datgan bod arnynt angen cymorth mewn cyflwr bregus iawn, gyda darpariaeth yn cael ei wneud o ran bwyd, pecynnau cychwyn tenantiaeth, dodrefn sylfaenol a phecynnau i gynorthwyo os oes angen hunanynysu o ganlyniad i Covid.

Yn ystod y llynedd, cynhwyswyd gwybodaeth wythnosol gyda'r adroddiad am y sefyllfa a gyflwynir i Dîm Ymateb Brys yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, a chynhwysir y risgiau o fewn y gofrestr risg Covid gorfforaethol. Rhannwyd gwybodaeth â swyddogion LlC yn wythnosol, ddwywaith yr wythnos, ac erbyn hyn yn fisol, ynghylch aelwydydd digartref. Cymerwyd ymagwedd cell gydgysylltiedig ar draws Gogledd Cymru, gyda chynnal cyfarfodydd wythnosol a misol erbyn hyn i ddiweddaru ynghylch materion a rhannu arfer da a phrofiadau â swyddogion digartrefedd arweiniol. Bydd archwiliad mewnol ar Covid a digartrefedd yn cael ei gwblhau, gyda'r adroddiad yn cael ei gyflwyno maes o law i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Defnyddiwyd dull gweithio partneriaethol gyda chysylltiadau rheolaidd a rhai wedi'u diweddaru â Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Prawf, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, BIPBC a darparwyr cymorth.

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo newid rhannol dros dro i'r Polisi Dyrannu Cyffredin ar gyfer tai, mewn ymateb i effaith Covid-19 ar lety brys / dros dro ar gyfer aelwydydd digartref ym mis Medi 2020, gydag adolygiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Gan edrych ymlaen at 2021, a heb arwydd gan LlC y bydd newid yn y polisi a luniwyd yn ystod Covid, bydd lefel y galwadau ar y gwasanaeth yn parhau. Mae'r Grant Cymorth Tai wedi'i gynyddu ar gyfer pob ALl, gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, 8 Mawrth 2021, a oedd yn darparu rhagor o adnoddau i ddelio â digartrefedd ac i ddarparu'r cymorth hanfodol y mae ei angen i gynorthwyo pobl i allu symud i lety sefydlog.

Bydd y galw am lety brys yn parhau, ac i'r perwyl hwn mae'r Gwasanaeth wedi prydlesu 14 uned gan ein Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r unedau hyn yn ein galluogi i gynnig fflat neu dŷ i aelwydydd, sy'n darparu mwy o ran cartref ynghyd ag ymdeimlad o sefydlogrwydd gyda'r cymorth a ddarperir. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar opsiynau o ran prydlesu rhagor o unedau gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Mae'r model hwn wedi profi i fod yn llwyddiannus, gydag aelwydydd yn gallu symud ymlaen o'r unedau hyn i lety cymdeithasol neu breifat parhaol gyda chymorth parhaus, fel y maent ar gael.

| |
|---|
| Rhoddwyd dyraniadau cyfalaf i'r Gwasanaeth hefyd, fel rhan o'r cyllid Cam 2, a fydd yn galluogi darparu llety ychwanegol i unigolion sengl. Mae hyn yn cynnwys llety gyda Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin, ynghyd â llety'r Cyngor ym Mhlas Alltran, Caergybi.<br><br>Cafodd y Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol ei hadolygu yn erbyn allbynnau ym mis Medi 2020, gydag ALI ar draws Gogledd Cymru'n parhau i weithio gyda'i gilydd. Mae pob ALI yn cytuno ar eu camau gweithredu lleol eu hunain ar gyfer 2020-21, gyda phwyslais ar ymateb i Covid. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddir yn mynd i'r afael â materion fel ailgartrefu'n gyflym, modelau Tai yn Gyntaf, yn ogystal â gweithio ar ragor o waith ataliol fel y mae effaith Covid yn esblygu i gyfnod o adfer. Gweler Atodiad 1 am adolygiad o'r cynllun gwaith. |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Mae'r costau ychwanegol a gafwyd o ganlyniad i newidiadau ym mholisi LlC wedi'u hawlio oddi wrth LlC. Gallai fod risg yng nghyswllt costau at y dyfodol pe bai LlC yn penderfynu cadw'r polisi presennol, heb gynnal y drefn ariannu bresennol ar gyfer llety brys. |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| Adolygiad a diweddariad rhaglen waith Strategaeth Digartrefedd Gogledd Cymru. |

| **9 – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Copi o ganllawiau a gyflwynwyd i ALlau<br>https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-04/guidance-for-local-authorities-in-supporting-people-sleeping-rough-covid-19_0.pdf<br>Adroddiad HSG i'r Pwyllgor Gwaith 22.3.21<br>http://democracy.anglesey.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&MId=3699&Ver=4&LLL=0<br>Polisi Dyrannu Covid – Pwyllgor Gwaith 17.8.20<br>http://democracy.anglesey.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&MId=3785&Ver=4&LLL=0 |

**Cynllun Gwaith Cydweithredol y Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol**

*Caiff ei ddiweddaru ddwywaith y flwyddyn, fe'i diweddarwyd ddiwethaf ym Medi 2020

Tudalen 37

| Categorïau | Gweithredu o'r cynllun gwaith: Y prif feysydd a nodwyd o ran cydweithredu: | Ynys Môn -Diweddarwyd Mai 2021 | Gwynedd -Diweddarwyd Mai 2021 | Conwy -Diweddarwyd Mai 2021 | Sir Ddinbych | Sir y Fflint | Wrecsam Diweddarwyd Mai 2021 | Gwaith arall yr ydym yn ymwybodol ohono (BIPBC, y Trydydd Sector, Grwpiau Rhanbarthol eraill ac ati) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pobl** | | | | | | | | |
| Digartrefedd Ieuenctid<br><br>Digartrefedd Ieuenctid | Datblygu dull rhanbarthol i bobl ifanc o ran gwybodaeth am:<br>• Fod yn barod am denantiaeth<br>• Lles / Buddion llythrennedd ariannol<br>• Hyrwyddo Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc at Dai | **Digartref Cyf (Darparwr Cymorth HSG) yn darparu cwrs i ddefnyddwyr gwasanaeth ar Gynnal Tenantiaeth.** | Crëwyd swydd Arweinydd Tîm newydd a fydd yn blaenoriaethu agenda Digartrefedd Ieuenctid. Yn edrych i benodi Swyddog Digartrefedd Ieuenctid cyn y Nadolig<br><br>Diweddariad 16/5/21 – Swyddi Arweinydd Tim a Swyddog Digartref Ieuenctid mewn lle, a rydym ar hyn o bryd wrthi'n mapio allan lle ydym ati efo Digartrefedd Ieuenctid yng Ngwynedd. | Lleolir Swyddog Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc yn y tîm Datrysiadau Tai.<br><br>**Wedi'i hyfforddi i gyflenwi cwrs hyfforddiant barod i rentu** ac mae wedi cyflenwi sawl cwrs.<br><br>Roedd y mynychwyr o blith Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Gofal Cymdeithasol, swyddogion symud ymlaen Datrysiadau Tai, fel y gellir rhedeg y cwrs mewn amryw leoliadau a'i ddarparu i ystod o grwpiau cleient, gan y gellir addasu'r modiwlau yn ôl y gynulleidfa.<br><br>**Rhoddir ystyriaeth i sut y gellir darparu'r hyfforddiant yn rhithwir.**<br><br>Mae gan Datrysiadau Tai gynghorydd CAB mewnol 3 diwrnod yr wythnos ac mae pob unigolyn ifanc yn cael ei atgyfeirio am gyngor ariannol.<br><br>25/5/21 Mae hyfforddiant pwrpasol CBSC yn cael ei ddatblygu o'r enw Branching Out. Bydd hyn | Mae gan Sir Ddinbych dîm bach sy'n cael ei reoli gan Tai yn Gyntaf, a defnyddir yr ymagwedd honno ganddynt i roi cymorth i bobl ifanc a chael tenantiaethau ar eu cyfer yn gyflym. | **Roedd rhan o gais Cam Dau CSFf yn cynnwys cyflwyniad i Becyn Hyfforddi Barod i Rentu trwy Crisis. Ni chafodd hwn ei ddyrannu trwy'r cyllid cam Dau ond mae CSFf yn edrych i ariannu hwn trwy'r HSG.**<br><br>**Mae CSFf yn awyddus i fabwysiadu Llwybr Cadarnhaol St Basil's ond mae angen iddynt ddeall beth sydd gan ALl eraill a ph'un a oes modd i ni gytuno ar ymagwedd gyffredin.**<br><br>Cyflwynodd CSFf gais am gyllid Cam 2 i benodi Rheolwr Prosiect i geisio datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer hyb i bobl ifanc, tebyg i'r un yn Ninbych. Wrthi'n trefnu ymweliad i Uwch Reolwyr gael archwilio hyn, ac yn awyddus i ddatblygu hyb llety a chymorth i bobl ifanc. | **Yn gweithio gyda SS i ddatblygu protocol ar y cyd.**<br><br>**Wedi creu taflen a cherdyn busnes** a'u dosbarthu i weithwyr ieuenctid ac ysgolion. | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yn cynnwys rhannau o wahanol gyrsiau, gan gynnwys elfennau o Rhentu'n Barod.<br><br>Hyfforddi'r Hyfforddwyr – cafodd dwy sesiwn eu cynnal ar-lein gan Crisis ym mis Mai 2021 ar gyfer amrywiaeth o staff, o fewn CBSC ac yn allanol | | | | |
| | Creu cysylltiadau gwell rhwng llety a chyfleoedd cyflogaeth | Mae'r darparwyr Grant Cymorth Tai yn cyfeirio defnyddwyr gwasanaeth i'r cynlluniau hyfforddiant a chyflogaeth canlynol:<br>-AdTrac<br>-MônCF | Cyflwynwyd cais ar gyfer prosiect £1M yng Nghanol Caernarfon mewn partneriaeth â GISDA (elusen digartrefedd ieuenctid) a wnaiff arwain at greu 4 uned llety â chymorth **ynghyd â fflat i ddarparu hyfforddiant mewn sgiliau bywyd yn yr ardal.** Fe'i lleolir uwchben caffi GISDA sydd wedi'i adnewyddu ac yn cael ei redeg gan unigolion digartref.<br><br>Diweddariad 16/5/21 – Mae'r Cynllun uchod wrthi'n mynd drwy'r broses cynllunio ac mae trafodaethau ynghylch sut y bydd y Cynllun yn gweithredu ar ôl ei ddatblygu wedi dechrau gyda GISDA ac ALl.<br><br>Cynllun arall sy'n cael ei ddatblygu ym Mangor ar hyn o bryd i ddarparu mynediad at gyfle cyflogaeth. Bydd unigolion yn cael eu cyfeirio at y cynllun o'r hostel a'r rhai sy'n cael eu lletya yn ein datblygiadau newydd ar y Stryd Fawr drwy gyllid Cam 2. | Mae hwn yn faes sy'n cael ei ddatblygu. **Gwnaed cysylltiadau â Creu Menter.** | **Mae gennym fentor cyflogaeth sy'n gweithio gyda phawb o dan 25 sy'n datgan eu bod yn ddigartref.** Rhoir cymorth gyda CV's, technegau cyfweld, dillad ac ati er mwyn rhoi terfyn ar dlodi tai. | Mae Gweithiwr Ieuenctid yn gweithio'n agos gyda Cymunedau am Waith ac yn atgyfeirio'n rheolaidd ar gyfer cymorth gyda chyflogaeth. **Mae gan bobl ifanc fentor personol fel rhan o'r rhaglen hon i'w helpu i ganfod cyflogaeth neu sgiliau ar gyfer cyflogaeth ynghyd â meithrin hyder.**<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod â Cymunedau am Waith yn Awst 2020 pryd y cytunwyd i dreialu rhai sesiynau yn y Ddarpariaeth Gwelyau Brys yng Nglannau Dyfrdwy er mwyn hybu ymgysylltiad â'r rhaglen hon.<br><br>Bydd y Rheolwr Cymunedau am Waith yn mynychu Fforwm Digartrefedd CSFf ym mis Medi i hyrwyddo Cymorth Gwaith a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau ymhlith darparwyr llety a chymorth CSFf, ynghyd â phartneriaid 3ydd sector. | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Creu'r adnoddau cefnogaeth ac atal cywir i helpu i gynnal tenantiaeth | 27 uned llety a chefnogaeth a 24 uned cefnogaeth ar wasgar yn gael ei ddarparu i pobl ifanc oed 16-24 drwy'r Grant Cymorth Tai.<br><br>Mae'r cynlluniau llety a chefnogaeth canlynol yn weithredol/wrthi'n cael eu datblygu er mwyn cefnogi pobl ifanc i gynnal tenantiaeth ar ol gadael y hostel<br>-Llety Pontio – Prosiect Symud Ymlaen i Bobl Ifanc (6 uned camu i lawr yn y Sector Rhentu Preifat ar gyfer hyd at 12 wythnos o gymorth dwys)<br>- Yn edrych ar adeiladu 4 uned MMC ar safle Ysgol Thomas Ellis i'w defnyddio fel llety symud ymlaen am hyd at 2 flynedd i bobl ifanc sy'n gadael llety hostel | **Wedi sefydlu tîm Cymorth Tenantiaeth a fydd yn rhoi mwy o flaenoriaeth i hyn.**<br><br>**Diweddariad 16/5/21 – Mae ad-drefnu Timau'n fewnol yn parhau, bydd staff ychwanegol yn cael eu penodi drwy gyllid Grantlau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddarparu cymorth mwy dwys pellach i helpu i gynnal tenantiaethau.** | Wrthi'n gweithio'n agos â'r Tîm o Amgylch y Denantiaeth er mwyn cael mynediad i'w cymorth.<br><br>Mae'r Swyddog Llwybr Cadarnhaol Pobl Ifanc yn parhau i fod ar gael i ddarparu cymorth i gleientiaid ar ôl iddynt symud i denantiaeth. Bydd Swyddog Cefnogi Pobl Ifanc yn cychwyn gweithio'n fuan, sydd wedi'i ariannu gan y cais Cam 2. | **Yn barod i roi cymorth ar gyfer rhentu mewn argyfwng ynghyd â chymorth dwys sy'n cynnwys llunio cyllideb bersonol.** | Fel rhan o'r Gwasanaethau Unigolion Ifanc Integredig, mae gan CSFf ar hyn o bryd:<br>• Weithiwr Ieuenctid wedi'i neilltuo<br>• Gweithiwr Gwasanaethau Plant (yn gweithio gyda rhai 16/17 oed)<br>• Gweithiwr cymorth wedi'i neilltuo (yn gweithio gyda rhai 16/17 oed) ar ôl canfod llety<br><br>Mae CSFf yn awyddus i adolygu darpariaeth llety â chymorth i bobl ifanc a bydd hyn yn ffurfio rhan o ymarfer comisiynu ehangach ar draws HSG. | | **Cymorth wedi'i deilwra Sir Ddinbych ar gyfer prosiect LGBTQ.**<br><br>**Ar hyn o bryd yn comisiynu Hyfforddiant LGBTQ+ ar draws Gogledd Cymru ac yn edrych ar fwy o unedau rhanbarthol sydd ar gael ar gyfer LGBTQ+**<br><br>**Arweinwyr HSG hefyd yn edrych ar uned wasgaredig ar gyfer dynion sy'n ffoi rhag cam-drin domestig**<br><br>**HSG hefyd yn ystyried comisiynu lloches diagnosis deuol ar gyfer cam-drin domestig** |
| Pobl sy'n Cysgu Allan | Hyrwyddo Ap Streetlink a gwybodaeth am roi gwybod am ddigartrefedd a sut gall y cyhoedd gynorthwyo pobl ddigartref | -mae poster StreetLink yn cael ei bostio ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol CSYM<br>-arddangosir poster StreetLink yn swyddfeydd y Gwasanaethau Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol | Diweddariad – 16/4/21 – Angen dilyn hyn fyny | Ceir gwybodaeth am Streetlink ar wefan y Cyngor, ac fe'i hyrwyddir trwy'r cyfryngau cymdeithasol ar raglen dreigl, yn enwedig yn y gaeaf. Fe'i hyrwyddir hefyd pan fydd SWEP yn cael ei sbarduno. | Mae hyn ar wefan CSDd | Ar wefan CSFf<br><br>Cyflwynwyd llythyr i bob Cyngor Tref a Chymuned yn Chwefror 2020 i hyrwyddo'r defnydd o Streetlink. | Dosbarthir taflenni a phosteri'n rheolaidd. | Sicrhau bod hyn ar bob tudalen mewnrwyd ALl. |
| | Creu canolfan gyswllt elusennau rhanbarthol i wella cysonder a darpariaeth strategol cefnogaeth | - cynhelir cyfarfodydd cyswllt â Medrwn Môn (corff ymbarél sy'n cynrychioli'r trydydd sector) ar lefel gorfforaethol | | Yn 2019, sefydlodd Conwy grŵp gweithredu amlasiantaethol ar gyfer pobl sy'n cysgu allan sydd wedi dod ag ystod o asiantaethau a gwasanaethau at ei gilydd, gan gynnwys grwpiau gwirfoddol a chymunedol, i rannu gwybodaeth a chydlynu gweithgareddau. | | | | Bu grwpiau Timau Gwybodaeth Lleol BIPBC yn sefydlu hybiau ym mhob rhanbarth TGLl (y Dwyrain, y Canol a'r Gorllewin) yn seiliedig ar wasanaeth o fath Iechyd Meddwl. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Sefydlwyd hyb cymunedol yn Rhagfyr 2019, sy’n cael ei gefnogi gan y grŵp hwn ond nid yw’n weithredol ar hyn o bryd o ganlyniad i Covid 19. | | | | |
| Pobl sy’n Cysgu Allan | Newid diwylliant gwleidyddion o ran stereoteipiau o ran llety brys, llety a rennir a thai yn gyntaf | | **Gwnaed sawl cyflwyniad yn ystod Covid i Aelodau’r Cabinet ac aelodau o’n Bwrdd Llesiant a’n Bwrdd Rhiant Corfforaethol.**<br><br>**Diweddariad 16/5/21 Cynllun Tai yn Gyntaf sydd bellach yn weithredol yng Ngwynedd, a gwnaed atgyfeiriadau i'r cynllun. Mae Cabinet y Cyngor hefyd wedi cytuno i Gynllun Gweithredu Tai newydd Gwynedd, a fydd dros y 6 blynedd nesaf yn darparu dros 50 uned o lety â chymorth yng Ngwynedd.** | | **Prosiect Tai yn Gyntaf achrededig cyntaf Conwy a Sir Ddinbych lle cymerwn bob cyfle i hyrwyddo’r gwaith a sicrhau bod ein Haelodau’n ymwybodol o hwnnw.** | Nodyn briffio a chyflwyniad i aelodau yng nghyfarfod Cyngor CSFf yn Chwefror 2020. Roedd hyn yn egluro’r heriau yn y Sir a sut yr oedd y Cyngor yn ymateb iddynt wrth symud o fodel SWEP i ddarpariaeth gwelyau brys amser llawn. Roedd hwn yn sesiwn gwirioneddol dda ac roedd yr aelodau’n gefnogol ac yn awyddus i ddeall yr heriau a'r rhwystrau i bobl sy’n cysgu allan.<br>**Mae angen trefnu sesiynau ymwybyddiaeth Tai yn Gyntaf gyda Gwleidyddion a bydd papur yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Craffu’n fuan (yn y Rhaglen Waith i’r Dyfodol).** | **Rydym wedi datblygu strategaeth i bobl sy’n cysgu allan ar gyfer Wrecsam ac fe’i mabwysiadwyd ym mis Chwefror eleni.** | Bu Cymorth Cymru’n ymgyrchu â CHC ynghylch y HSG a sicrhau bod rhagor o arian ar gael? Mae’r datganiad llafar gan y Gweinidog yn dilyn rhyddhau’r canllawiau - y sgript lafar yn dilyn hyn yn gadarnhaol, mae digartrefedd / y risg o fod yn ddigartref yn cael ei gydnabod.<br><br>Rwy’n meddwl bod yn fwy i’w wneud â beth rydym yn ei gyhoeddi i ddangos yr effaith. Mae angen i ni gyfleu ein storïau’n well. Mae GCCTRh yn gwneud hyn trwy holiadur adborth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. |
| | Dod â setiau data ynghyd ar lefel ranbarthol i greu gwell dealltwriaeth o:<br>• Pam mae pobl yn gwrthod mathau penodol o lety<br>• Pam mae tenantiaethau yn dod i ben / Pam mae pobl yn datgan eu bod yn ddigartref<br>• Beth mae’r Sector Rhentu Preifat am ei gael o ran | Data yma i gyd ar gael. | | Cedwir data mewn perthynas â pham mae tenantiaethau’n dod i ben a pham mae pobl yn datgan eu bod yn ddigartref.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd y Fforwm Landlordiaid yn rheolaidd.<br><br>Lleolir dau Swyddog Mynediad Sector Preifat o fewn Datrysiadau Tai a bydd Swyddog Cyswllt | | Nid yw hyn yn rhan o’r set ddata sydd wedi’i choladu ar gyfer datganiadau digartrefedd ar hyn o bryd, **byddai angen cytuno ar beth i’w goladu er mwyn sicrhau cysondeb a data ystyrlon.**<br><br>Cesglir hyn yn barod fel rhan o’r set ddata sy’n cael ei choladu ar gyfer datganiadau digartrefedd. | | Gellir cael gwybodaeth o ran pam mae tenantiaethau’n dod i ben a pham mae pobl yn datgan eu bod yn ddigartref o ddata canlyniadau Cefnogi Pobl.<br><br>Rhywfaint o hyn wedi cael ei bigo fyny gan Laura Petterson. |

Tudalen 41

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | cefnogaeth a sut gallwn annog landlordiaid i osod eiddo i bobl sy'n hawlio Budd-daliadau Lles | | | Sector Preifat yn dechrau gweithio'n fuan, a ariennir trwy'r cais Cam 2. | | **Sector Rhentu Preifat- Mae holiadur byr yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd trwy Survey Monkey i weld a allwn gael rhywfaint o ddealltwriaeth trwy blatfform gwahanol.** | | |
| | Datblygu ymgysylltiad gwell gyda phobl sy'n cysgu allan i ddeall anghenion | Mae'r Wallich, trwy eu gwaith Tai yn Gyntaf, yn darparu ymgysylltiad da. | Gwasanaeth allgymorth yn cael eu darparu gan TGC. | Roedd Conwy wedi rhedeg lloches nos ar gyfer y gaeaf am y tro cyntaf y gaeaf diwethaf, oedd yn caniatáu gweithio'n agos â grŵp rheolaidd o bobl a oedd yn defnyddio'r lloches nos.<br><br>Mae lletya pobl o ganlyniad i Covid 19 yn rhoi cyfle i weithio gyda phobl a darparu cymorth priodol iddynt.<br><br>Mae'r grŵp gweithredu i bobl sy'n cysgu allan wedi dechrau gweld asiantaethau a gwasanaethau'n gweithio'n agosach â'i gilydd. Cafwyd cefnogaeth dda i'r cyfrif o bobl sy'n cysgu allan ym mis Tachwedd 2019, gydag asiantaethau'n darparu gwybodaeth am bobl yr oeddynt yn ymwybodol eu bod yn cysgu allan.<br><br>Bu gweithio gyda gwasanaethau allgymorth fel Kind Bay, Soup and Sox, Hope Restored a gyda Thîm Unigolion Bregus y Cyngor yn gadarnhaol iawn.<br><br>Mae cael mynediad i wasanaethau Iechyd Meddwl o fewn y gwasanaeth Iechyd yn | Tai yn Gyntaf sy'n darparu ein gwasanaeth allgymorth ar hyn o bryd i bobl sy'n cysgu allan. | Nid oes gan CSFf Weithiwr Allgymorth wedi'i neilltuo ar hyn o bryd ac mae hyn yn cael ei reoli'n fewnol gan Swyddog o fewn y gwasanaeth.<br><br>Mae'r Wallich yn ymgysylltu'n dda â defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael mynediad i'r ddarpariaeth gwelyau brys, ac mae angen adeiladu ar hyn i gasglu data ar angen.<br><br>Diogelwyd £15k trwy Cam 2 ar gyfer cymorth Iechyd Meddwl a Lles APB a dargedir at y Grŵp Covid er mwyn osgoi dychwelyd i gysgu allan ar ôl yr "Ymateb i Covid". | Mae staff wedi'u recriwtio bellach ar gyfer swyddi allgymorth.<br><br>Ystyriwyd fod canolfan frysbennu a fu'n weithredol trwy gydol y pandemig yn enghraifft o arfer orau. | Mae Byrddau Cynllunio Ardal ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau yn cychwyn Gwasanaeth Allgymorth ar gyfer Anghenion Cymhleth / Pobl sy'n Cysgu Allan / Iechyd Meddwl. Mae swyddi'n cael eu hysbysebu ar hyn o bryd.<br><br>Gwaith mae Laura Patterson yn ei gwblhau i'r Grwp. |

Tudalen 42

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | fwlch o ran darpariaeth gwasanaeth. | | | | |
| Anghenion Cymhleth | Datblygu diffiniad pendant a rennir o Anghenion Cymhleth ar draws y rhanbarth | | | | | | Mae gan Wrecsam ei ddiffiniad, er yn eang, a gefnogir gan y grŵp llywio. | Cytuno ar ddiffiniad – mae gan Gonwy ddiffiniad sydd wedi'i gytuno – a ddylid ei fabwysiadu? |
| | Cydlynu'r defnydd o ymchwil ar draws y rhanbarth ac Awdurdodau Lleol unigol o ran data ar anghenion cymhleth | -Mae data Canlyniadau a SPOA ar gael ar gyfer hyn | | Cesglir rhywfaint o ddata y gallwn adrodd yn ei gylch.<br><br>Defnyddiwyd matrics LlC yn ddiweddar i asesu anghenion cymorth aelwydydd digartref, ac mae prosiect Minafon wedi derbyn cyllid Cam 2. | | | | Angen i'r grŵp benderfynu ar ba ddata yn gyntaf? Mae gennym Ganlyniadau a gellir edrych ar anghenion cyntaf ac ail anghenion i ddangos anghenion lluosog? |
| | Datblygu/defnyddio'r math cywir o dai | | | Mae gan Gonwy a Sir Ddinbych brosiect Tai yn Gyntaf ar y cyd sydd wedi derbyn cyllid yn ddiweddar ar gyfer cael rhagor o staff. | | | | Rhoi esiamplau o beth gafodd ei ddefnyddio yn ystod y pandemig ac wrth ymateb i argyfwng. |
| | Datblygu gwell cydweithredu ar draws adrannau awdurdod lleol o ran anghenion cymhleth | Swydd Gweithiwr Achosion Cymleth wedi cael ei hysbysebu. | | Sefydlwyd cysylltiadau gweithio agosach â'r Tîm Unigolion Bregus.<br><br>Mae gan y Cyngor Banel Achosion Cymhleth i ddod â gwasanaethau ynghyd i gydlynu ymateb i anghenion aelwydydd. | Cymeradwywyd cyllid o dan Gam 2. | | | Prosiect Anghenion Cymhleth Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau? Mae hon yn ymagwedd gydweithredol. Cysylltiadau â hyn? a fydd yn helpu i ddatblygu proses o ran anghenion cymhleth. |
| Rhai sy'n Gadael Carchar | Cynyddu Adnoddau ar gyfer Llwybr Carcharorion drwy ddatblygu cytundeb dwyochrog ar draws y rhanbarth - creu rhwydwaith swyddogion Llwybr Carcharorion rhanbarthol | Swyddog Ailsefydlu Carcharorion wedi'i leoli o fewn y Tîm Dewisiadau Tai | Diweddariad- 16/5/21- Adnoddau'n cael eu cynyddu i ddatblygu gwasanaeth llwybr carcharorion o fewn yr ALl. Bydd gan y tîm Arweinydd Tîm a dau Swyddog Dewisiadau Tai penodedig ynghyd ag un swyddog symud ymlaen. | Lleolir swydd y Swyddog Cyswllt Carchardai o fewn y tîm Datrysiadau Tai.<br><br>Mae Conwy'n cydlynu cyfarfodydd rheolaidd Swyddogion Cyswllt Carchardai Rhanbarthol Gogledd Cymru. | | Mae cytundeb cyfatebol wedi'i ddatblygu sydd bellach ar waith. Hefyd mae Rhwydwaith Llwybr Carcharorion Rhanbarthol ar waith a chynhelir cyfarfodydd yn rheolaidd. | Wrthi'n archwilio adnodd ychwanegol.<br><br>Mae swyddog cymorth cyswllt carchardai wedi bod yn ei swydd er ei fod dros dro o ganlyniad i gyllid cam 2. Rydym yn gobeithio prif | Mae GCCTRh Cefnogi Pobl wedi arwain darn o waith i sicrhau bod pob ALl yn recriwtio Swyddog Ailsefydlu Carcharorion. Mae swyddogion ailsefydlu carcharorion yn cynnal eu |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae trefniadau cyfatebol wedi'u cytuno a'u rhoi ar waith.<br><br>Wrthi'n trafod ar hyn o bryd comisiynu llety a chymorth ar gyfer y grŵp cleient hwn ar y cyd, nid yw hyn ar gael yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd. | | | ffrydio'r sefyllfa hon drwy gyllid Grantiau Tai Cymdeithasol. | cyfarfodydd rheolaidd â'i gilydd i drafod gwersi a ddysgwyd / arferion gorau. |
| | Gwella gwaith monitro Llwybr Carcharorion a datblygu map data o'r effaith mae'n ei chael ar draws y rhanbarth | | | | | | | Mae Lyndsey Waters yn LlC wrthi'n edrych ar y Llwybr ar hyn o bryd. Yn disgwyl am gyfarwyddyd pellach. |
| **Cartrefi** | | | | | | | | |
| Tai yn Gyntaf | Dull cydgysylltiedig o ran cyfathrebu i berswadio gwleidyddion lleol o rinweddau Tai yn Gyntaf | Gwnaed rhywfaint o waith ar hyn o ran darparu Bunkabins yn ystod Covid<br><br>Mae'r Wallich sy'n darparu Cynlluniau Tai yn Gyntaf IOACC yn rhoi cyflwyniadau rheolaidd i wahanol grwpiau a fforymau ar rinweddau'r cynllun. | Cynllun Tai yn Gyntaf Cyntaf wedi cychwyn yng Ngwynedd, atgyfeiriadau a wnaed eisoes. | Mae prosiect Tai yn Gyntaf Conwy a Sir Ddinbych wedi bod ar waith ers 2019 | | Bydd Aelodau CSFf yn derbyn briffiau ar Tai yn Gyntaf yn ystod y misoedd nesaf. | | Prosiect peilot Conwy a Sir Ddinbych ar y Cyd. Bydd Conwy a Sir Ddinbych yn arwain ar y cam gweithredu hwn.<br><br>Sir Fflintam ymymuno a model Conwy a Sir Ddinbych. |
| | Bwydo i raglen dreigl barhaus Llywodraeth Cymru i ddeall gweledigaeth LlC yn well | | | | | | | |
| | Rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarth | | | | | | | |
| Gwell mynediad at wybodaeth – cyflenwad | Codi ymwybyddiaeth o Strategaeth Digartrefedd gydag adrannau eraill | Gwnaed cysylltiadau â'r gwasanaethau dysgu, ieuenctid ac oedolion a phlant ynghyd â'r Bwrdd Atal Corfforaethol | Mae Digartrefedd yn flaenoriaeth yng Ngwynedd. | 25/5/21 – Mae'n flaenoriaeth Corfforaethol i atal pobl rhag ddod yn Ddigartref. | Mae digartrefedd bellach yn flaenoriaeth gorfforaethol yn Sir Ddinbych. | Gellir hyrwyddo hyn trwy Fforwm Digartrefedd CSFf a fydd bellach yn cyfarfod bob chwarter i ddod â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol at ei gilydd o fewn y sector tai, digartrefedd a chymorth ar draws Sir y Fflint. | Sefydlwyd grŵp llywio i fonitro ac adolygu'r strategaeth digartrefedd yn Wrecsam. | O ran y strategaeth, byddir yn adrodd i'r GCCTRh a fydd yn adrodd neu'n rhannu gwaith â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Iechyd Cyhoeddus.<br><br>Rwy'n meddwl y gellid gwneud darn |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwell mynediad at wybodaeth – cyflenwad | | | | | | | | o waith yma ar sut y gallwn rannu astudiaethau achos a dangos effaith beth mae'r strategaeth hon yn ei gyflawni.<br><br>Mae'r GCCTRh wrthi'n creu gwefan. |
| | Cynnwys digartrefedd ar lefel strategol ar draws y rhanbarth | | | 25/2/21 – Mae gan yr ALL Gogledd Cymru strategaeth digartrefedd rhanbarthol. Gellir hwn gael ei ddiweddaru o fewn y Strategaeth Grant Cymoorth Tai | | | | Y GCCTRh a chysylltiadau GCCTRh â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Rhan o'r pwyslais newydd ar weithio ar lefel ranbarthol o ran y HSG. |
| | Cynyddu cyflenwad addas a hygyrch<br>• Adeiladau newydd cymdeithasol<br>• Defnyddio mwy o stoc Sector Rhentu Preifat | - Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol (yn darparu unedau MMC ar gyfer unigolion sengl ar safleoedd datblygu mwy)<br>- Cynlluniau Cartrefi Gweigion<br><br>Mai 2021- 227 o unedau newydd ar safle gan y Cyngor a'r Cymdeithasau Tai, gyda 24 o'r rhain yn fflatiau un llofft. | Mae cynllun cymelliadau ar y gweill ar gyfer y Sector Rhentu Preifat. Mae sawl cynllun cyfalaf o ran llety â chymorth ar y gweill – posibilrwydd o bron i 30 uned.<br><br>Diweddariad 16/5/21-<br><br>Cymeradwywyd pecyn cymorth i ariannu 100 uned o lety mewn SRhP a fydd yn annog landlordiaid i gynnig tenantiaeth i bobl leol y mae angen tai arnynt yn hytrach na'u gosod am gyfnodau tymor byr | Mae angen i lety fod yn fforddiadwy – mae hyn yn her allweddol wrth geisio cael mynediad i'r Sector Rhentu Preifat.<br><br>Conwy yw'r awdurdod arweiniol mewn cynllun peilot LlC gyda Sir Ddinbych ar gyfer prydlesu llety gan berchnogion eiddo am 5 mlynedd. Defnyddir yr eiddo i gyflawni dyletswyddau ar gyfer aelwydydd yng nghyswllt digartrefedd, yn enwedig dyletswyddau Adran 75.<br><br>Dyfarnwyd cyllid Cam 2 i gefnogi'r fenter Cartrefi Gweigion i ganiatáu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig brynu eiddo gwag.<br><br>25/5/21 – ni ellir defnyddio cynllun peilot PSL Llywodraeth Cymru i gyflawni dyletswyddau | Mae CSDd yn gweithio gyda Chonwy ar y cynllun Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig newydd. | O 31.07.2020 ymlaen mae CSFf wedi cyflenwi 147 o eiddo cymdeithasol a 79 o eiddo fforddiadwy trwy ei raglen adeiladau newydd. Mae 53 o dai cymdeithasol a 20 o dai fforddiadwy wedi'u cymeradwyo/gwaith wedi dechrau ar y safle.<br><br>Mae angen datblygu gwaith ymhellach gyda'r Sector Rhentu Preifat. | Parhaus | Cynlluniau Cam 2 ac adeiladu MMC. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | digartrefedd a75 ond mae'n cael ei ddefnyddio i gyflawni dyletswyddau adran 6 ac a73. Mae 10 eiddo bellach ar y cynllun gyda 3 arall i fod i ymuno'n fuan | | | | |
| | Datblygu cyfres o gymhellion ar draws y Rhanbarth i annog Landlordiaid i weithio gyda'r Gwasanaeth Digartrefedd | - Mae CSYM ar hyn o bryd yn darparu'r Cymhellion a ganlyn ar gyfer Landlordiaid Preifat ynghyd â Chronfa Atal:<br>- Bondiau di-arian<br>- Yswiriant gwarantu rhent<br>- Cynhwysiant ariannol<br>- Taliadau untro<br>- Rhent wedi'i warantu am 3 mis | | Mae asiantaeth brydlesu HAWS yn cynnig cyfres o opsiynau rheoli i berchnogion ac yn gweithio'n agos â Datrysiadau Tai i gynorthwyo eu cleientiaid i fynd i mewn i'r Sector Rhentu Preifat.<br><br>25/5/21 – defnyddir y gronfa atal digartrefedd mewn amrywiaeth o ffyrdd i atal digartrefedd, ond yn fwyaf cyffredin i gefnogi aelwydydd i gael mynediad i'r SRhP drwy rent ymlaen llaw/blaendaliadau<br><br>Mae cynllun peilot PSL Llywodraeth Cymru yn galluogi mynediad i eiddo PRS am 5 mlynedd ar lefelau rhent LHA | | Maes datblygu o fewn CSFf. | Parhaus | Cynhelir y trafodaethau hyn mewn Fforymau Landlordiaid. Bydd taflen Cymru gyfan ynghylch cymorth i Landlordiaid Preifat yn cael ei chyhoeddi. |
| | Gweithio gyda'r Sector Rhentu Preifat i leihau canfyddiad negyddol o gymryd tenantiaid Budd-daliadau Lles | -Cynhelir Fforwm Landlordiaid Blynyddol CSYM ar y cyd â'r Adran Gwarchod y Cyhoedd. Yng nghyfarfod mwyaf diweddar y fforwm yn Hydref 2019, rhoddodd y Wallich gyflwyniad am Tai yn Gyntaf, tra rhoddodd JCP gyflwyniad am Gredyd Cynhwysol.<br><br>Fforwm nesaf i'w gynnal yn mis Mehefin 2021 yn rhithiol. | Cynigir Cymorth tenantiaeth dwys ynghyd â'r cymhelliant ariannol newydd(uchod) i annog landlordiaid i ymgymryd â thenantiaid Budd-daliadau Lles. | Meysydd allweddol i fynd i'r afael â hwy yw cymorth i helpu tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau ynghyd â chymorth i landlordiaid gydag unrhyw broblemau sy'n codi.<br><br>25/5/21 – Mae'r Fforwm Landlordiaid yn parhau i gael ei gynnal yn rheolaidd ac mae wedi symud ar-lein ers y pandemig<br><br>Nid yw pob un yn negyddol – pobl beryglus al, mae ôl-ddyledion rhent yn aml yn ben-hawlwyr – | | Fel yr uchod | | Fel yr uchod<br>- Bu fforymau Tyfu Tai y CIH yn edrych ar Rentu Preifat ac Iechyd Meddwl (yn gweithio â'r Sector Rhentu Preifat i edrych ar y cymorth sydd ar gael i landlordiaid) |



Tudalen 45

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Ddim yn wrthwynebol Rhenti'n cynyddu. Dim troi allan<br><br>Gwarantau rhent | | | | |
| | Rhanbarthu dull cyfathrebu gyda landlordiaid Sector Rhentu Preifat | Gweler uchod, bwriedir llunio taflen ar gyfer Cymru gyfan. | | Cylchlythyr i Landlordiaid<br><br>25/5/21 – mae'r Rhwydwaith PRS yn cwmpasu Cymru gyfan ac mae wedi ail-ddechrau'n ddiweddar ar ôl sawl blwyddyn. Mae'r grÅµp yn ystyried sut y gellir datblygu cyfathrebu cyson â landlordiaid<br><br>Dechrau casglu data am y sector. Mae Rhentu Doeth Cymru wedi rhannu rhywfaint o'u gwybodaeth – mae 9,450 o eiddo wedi'u cofrestru gyda RSW yng Nghonwy, y credir eu bod yn ostyngiad yn y cyflenwad | | | | |
| | Hyrwyddo porthol gwe Tai Teg ymhellach | -Mae Cofrestr Tai Fforddiadwy Tai Teg yn cael ei hyrwyddo'n rheolaidd ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol CSYM. | Eisoes ar ein gwefan a'n platfformau cyfryngau cymdeithasol. | | Byddaf yn gwirio os yw hyn ar dudalen CSDd. | Angen ei ychwanegu at wefan CSFf. | | A oes modd i hwn fod ar bob tudalen mewnrwyd ALl? |
| Llety dros dro<br><br>Llety dros dro | Archwilio datrysiadau arloesol i lety dros dro | Defnyddir Bunkabins fel rhan o'r ymateb i Covid. | Mae 4 o'r Podiau Tŷ i Un (a ddyluniwyd gan Wynedd) yn cael eu datblygu yng Nghaernarfon gyda 6 arall ar y gweill ar gyfer Dolgellau.<br><br>Diweddariad 16/5/21 - 4 pod yng Nghaernarfon bron ar ôl eu cwblhau, hefyd 5 pod arall yn Nolgellau sy'n mynd drwy gynllunio ar hyn o bryd. | Mae unedau Tŷ i Un/Haus for One yn cael eu defnyddio fel llety dros dro.<br><br>Cafodd eiddo mawr ei ryddhau gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig i'w ddefnyddio fel tŷ a rennir yn hytrach na lleoliadau gwely a brecwast.<br><br>25/5/21 – Mae Haus for One pods, Minafon a Bodhyfryd Road i gyd bellach yn cael eu defnyddio fel TA | | Mae CSFf yn cynllunio i adolygu'r holl Lety Dros Dro i sicrhau ei fod yn addas i'r diben. Mae hyn yn cynnwys edrych ar ddarpariaeth a rennir/Tai Amlfeddiannaeth ac edrych i symud i lety sy'n fwy hunangynhwysol. Roedd yr adolygiad hwn wedi'i gynllunio ar gyfer eleni ond mae'r pwysau o orfod delio â Covid 19 wedi golygu nad yw'r gwaith hwn wedi dechrau hyd yma. | Mae hyb brysbennu'n cael ei ddatblygu o ganlyniad i Covid 19. | Gwaith Cartrefi Conwy (HAUS 4 One), oes unrhyw beth arall o'r math hwn yn digwydd ar draws Gogledd Cymru? |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dysgu gan Awdurdodau Lleol nad ydynt yn defnyddio llety gwely a brecwast i ddiwallu anghenion llety dros dro – rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarth | - Camu i Lawr o ran Iechyd Meddwl (Cerrig Camu/Stepping Stones) - 4 fflat Sector Rhentu Preifat sy’n darparu, sy’n darparu hyd at 12 wythnos o gymorth Tai yn Gyntaf a PIE i ddefnyddwyr gwasanaeth sy’n rhy fregus ar gyfer llety Gwely a Brecwast traddodiadol. | | Cynhaliwyd ymweliadau â chynlluniau eraill yng Ngogledd Cymru i helpu i lywio ein hymagwedd i’r tŷ a rennir a’n lloches nos cyntaf ar gyfer y gaeaf.<br><br>25/5/21 - oherwydd y pandemig, mae'r galw am TA wedi cynyddu. Mae nifer y bobl mewn B a B a hyd eu harhosiad wedi cynyddu. Mae un B a B ar fin cael ei brydlesu gan CBSC am 6 mis<br><br>Mae'n ymddangos y bydd angen parhaus am fwy o TA yn y tymor byr oherwydd effaith dileu angen blaenoriaethol, nodwyd nad oes 'dim mynd yn ôl' ar hyn o'r sefyllfa bresennol | | Mae CSFf yn defnyddio Gwely a Brecwast lle bo angen ond yn ceisio sicrhau y gwneir hyn cyn lleied â phosib ac ar gyfer cyfnodau byr yn unig. Rydym wedi ceisio cynyddu darpariaeth llety dros dro mewn ardaloedd lle bu gennym niferoedd uchel mewn darpariaeth Gwely a Brecwast, h.y. teuluoedd, i sicrhau bod gennym ddigon o gapasiti o fewn llety dros dro i leihau'r defnydd o lety Gwely a Brecwast. Cafodd hyn effaith ar wariant ar lety dros dro oherwydd pan fo llety dros dro yn wag mae’r gwasanaeth yn atebol am y cyfnodau gwag, ond bu’r gwariant ar lety dros dro’n llawer is na gwariant blaenorol ar lety gwely a brecwast. | | |
| | Ymgyrch gyfathrebu i fynd i’r afael â chanfyddiadau’r cyhoedd am lety dros dro a’r bobl sy’n ei ddefnyddio | | | Mae problemau ymddygiadol a brofir yn ei gwneud yn anodd mynd i’r afael â hyn.<br><br>25/5/21 – oherwydd nifer y bobl mewn B a B a materion ymddygiad sy'n cael eu profi, mae hyn yn anodd iawn ei ddatblygu ar hyn o bryd<br><br>Bu digartrefedd yn fwy gweladwy oherwydd y pandemig | | | | |
| | Archwilio cytundeb lefel gwasanaeth rhanbarthol gyda darparwyr gwely a brecwast | | | Mae cytundeb ar waith gyda Sir Ddinbych yng nghyswllt rheoli aelwydydd a leolir dros y ffin.<br><br>Mae pob darparwr gwely a brecwast yn cael ei achredu’n flynyddol a darperir tystysgrifau | | Mae hyn wedi’i drafod yn flaenorol a ddim yn siŵr sut y byddai’n gweithio neu a yw’n bosib o ystyried y gwahanol lefelau o alw a darpariaeth o fewn pob ardal ALl. | Mae cytundeb lleol ar waith. | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | diogelwch ganddynt fel rhan o'r broses hon. | | | | |
| **Gwasanaethau** | | | | | | | | |
| Atal / Ymyrraeth | Creu set ddata traws-ranbarthol i roi gwybod yn well pam mae pobl yn datgan eu bod yn ddigartref | - Mae data SPOA yn nodi'r rhesymau pam fod pob unigolyn a gaiff ei gyfeirio am gymorth yn datgan ei fod yn ddigartref<br>- Mae data o ran rhai sy'n datgan eu bod yn ddigartref hefyd yn cipio'r rheswm am ddatgan eu bod yn ddigartref. | Rhesymau dros gyflwyno'n ddigartref yn cael ei recordio. | Byddem yn cofnodi'r rheswm dros ddigartrefedd ar gyfer pob ymgeisydd.<br><br>25/5/21 – Tan 2020 cwblhawyd ffurflenni CHWARTEROL WHO12. Mae ffurflenni data digartrefedd wedi bod mewn fformat gwahanol yn ystod 2020/21, gyda gwybodaeth lai manwl yn cael ei darparu a nifer y bobl yr adroddwyd arnynt (mae ffurflenni WHO12 yn ymwneud â nifer yr aelwydydd)<br><br>Mae ystadegau digartrefedd ar gyfer 2020/21 wedi'u llunio gan 'Pawb i Mewn' a chyfyngiadau ar droi allan o'r Sector Rhentu Cyhoeddus | | Cynhwysir hyn yn y set ddata ar gyfer y datganiad digartrefedd ond mae'n lefel uchel – gallai roi man cychwyn da ar gyfer dadansoddiad pellach.<br><br>Bu rhannu data ar gyfer yr Ymateb Covid trwy gell Gogledd Cymru yn ddefnyddiol iawn. | | Mae'r data Canlyniadau'n dangos pam y daeth cymorth i ben? Gellir edrych ar hyn? Ond pa ddata arall sy'n dweud hyn wrthym?<br>Neu a fyddai hyn yn dilyn ymlaen o gamau gweithredu gweithwyr allgymorth y soniwyd amdanynt yn flaenorol, neu waith y Byrddau Cynllunio Lleol o ran anghenion cymhleth neu bobl sy'n cysgu allan / MH a SM? |
| | Codi ymwybyddiaeth ymhlith gwasanaethau statudol mewn awdurdodau lleol i ddeall y gall ymyrraeth gynharach atal digartrefedd yn y dyfodol | Cyfarfodydd corfforaethol mewnol ynghylch y Strategaeth Atal a hefyd cyfarfodydd ymyrraeth gynnar mewn perthynas â theuluoedd bregus. | Penodwyd Cydgysylltydd Digartrefedd Ieuenctid sy'n eistedd yn y Gwasanaeth Ieuenctid ond sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chleientiaid digartref i atal digartrefedd, hefyd bydd Cydgysylltydd Iechyd Meddwl yn cael ei benodi o fewn y 6 wythnos nesaf a fydd hefyd yn codi ymwybyddiaeth o fewn y gwasanaeth iechyd meddwl. | Mae'r diffyg adnoddau a chapasiti mewn gwasanaethau yn broblem.<br><br>Mae gwasanaethau eraill yn gwybod bod Datrysiadau Tai yn darparu rhwyd ddiogelwch os nad yw ymyraethau eraill wedi gweithio, e.e. yn aml, mae plant sy'n derbyn gofal wedi rhoi cynnig ar ystod o opsiynau erbyn yr adeg y maent yn gwneud cais digartrefedd.<br><br>25/5/21 – Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o bwyslais ar ymyrraeth gynnar gan | Yn cael ei arwain yn gorfforaethol. Yn codi ymwybyddiaeth, ond mae gwaith i'w wneud eto. | Fel yr uchod o ran datblygu Fforwm Digartrefedd yn Sir y Fflint. | | ACE's? PIE / PATH? |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | bob gwasanaeth cyhoeddus er mwyn atal digartrefedd. Mae hyn yn un o ofynion y dull Ailgartrefu Cyflym | | | | |
| | Creu map rhanbarthol o'r adnoddau atal sydd ar gael ar lefel leol a rhanbarthol | | | Mae'r Cod Arweiniad yn cynnwys pecyn cymorth atal digartrefedd fel man cychwyn.<br><br>Mae datganiadau WHO12 yn gofyn am ddata ynghylch nifer y ceisiadau digartrefedd lle cafodd digartrefedd ei atal neu fod rhywun digartref wedi cael cymorth ynghyd â sut y cyflawnwyd hyn.<br><br>25/5/21 – Mae'r grofa atal digartrefedd y cael ei ddefnyddio'n hyblyb I atal digartrefedd. | | | | |
| | Rhannu gwasanaethau gwybodaeth ar draws y rhanbarth | | | Mae'r Cod Canllawiau yn gofyn i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill.<br><br>Mae Datrysiadau Tai wedi datblygu cyfres o daflenni gwybodaeth. | | | | Timau Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd? Faint o wybodaeth o ran tai a gynhwysir o fewn y wybodaeth a rennir ganddynt? |
| | Rhannu adnoddau hyfforddiant ar draws y rhanbarth | | | Mae Conwy'n rhannu hyfforddiant yn rheolaidd gyda Cartrefi Conwy. | | Potensial i edrych ar hyfforddiant Barod i Rentu Mewn Argyfwng fel prosiect rhanbarthol.<br><br>Mae'r angen yn parhau i staff gael rhywfaint o hyfforddiant ar NRPF a chymhwystra. Mae hyn wedi'i amlygu eto yn sgil lletya'r rheiny â NRPF | Iechyd, lleol a rhanbarthol wedi'u cynrychioli ar y grŵp llywio lleol. | |
| Diwygio Lles | Datblygu canolfan ymyrraeth gynnar ranbarthol | - Cyfarfodydd corfforaethol mewnol ynghylch y Strategaeth Atal a hefyd cyfarfodydd ymyrraeth gynnar mewn perthynas â theuluoedd bregus. | | | | | Mae prosiectau yn cael eu hadnabod ar gyfer hybu a gweithredu'r agenda atal digartrefedd, a mae hyn yn cynnwys ailgartrefu'n gyflym. | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Hefyd, sefydlwyd hyb Credyd Cynhwysol ar Ynys Môn. | | | | | | |
| | Sefydlu grŵp arfer gorau rhanbarthol | | | Mae gan Gonwy grŵp Diwygio Lles mewnol. | | | | A fyddai hyn yn golygu bod ein grŵp yn rhannu'r wybodaeth hon mewn cyfarfodydd? Angen rhyw fath o gynllun cyfathrebu? |
| | Cau bylchau data i ddeall effaith sancsiynau ar ddigartrefedd yn well | Sefydlwyd hyb Credyd Cynhwysol ar Ynys Môn. | | 25/5/21 – mae angen ei ystyried gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau<br><br>Mae gan CHS gysylltiadau agos â staff CAB, sy'n rhan o'r tîm 3 diwrnod p, a thîm Hawliau Lles CBSC | | Gwneud cysylltiad â chynrychiolwyr partneriaeth y DWP. | | - LlC wedi comisiynu Policyi in Practice i gynnal ymchwil ar effaith Credyd Cynhwysol - darparodd CSYM wybodaeth ar gyfer yr ymchwil hwn. |
| | Rhanbarthu protocolau cyn achosion o droi allan | | | 25/5/21 – Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi ymrwymo i weithio tuag at ddim troi allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol | | | | |
| Iechyd a gofal cymdeithasol | Dangos budd-cost buddsoddiad mewn tai a'r agenda digartrefedd yn well o ran arbedion i'r gwasanaeth iechyd drwy rannu arfer gorau | Mae adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch cost digartrefedd yn fan cychwyn da. Hefyd, dywedodd aelod o ALl yn Ne Cymru ei bod wedi datblygu adnodd budd-cost - angen gweld copi o hwn. | | 25/5/21 – HPO (Rhyddhau o'r Ysbyty) a ariennir gan Iechyd ac sydd wedi'i leoli yn ysbyty Glan Llwyd. Gwnaed rhywfaint o asesiad o arbedion ac effaith ar leihau blocio gwelyau. Mae'r swydd bellach yn wag ac mae Iechyd yn ei hadolygu<br><br>Ar hyn o bryd mae CIH yn gwneud rhywfaint o ymchwil i gyngor ar dai a rhyddhau cleifion o'r ysbyty<br><br>Cafwyd rhywfaint o asesiad o'r arbedion y gall Tai yn Gyntaf eu gwneud i amrywiaeth o | | Cyfeiriodd CSFf at hyn yng nghyfarfod y Rhwydwaith Tai Cenedlaethol gan fod arnom angen fformiwla y gallem gytuno arni ar gyfer dadansoddi budd-cost.<br><br>Mae Adroddiad SAC ar Bobl sy'n Cysgu Allan a ryddhawyd yng Ngorffennaf 2020 yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ddiddorol am fuddion cost o ran pwrs y wlad wrth letya pobl sy'n cysgu allan. | | Mae gan GCCTRh ddogfen Straeon Ein Pobl fel syniad drafft. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | wasanaethau cyhoeddus eraill | | | | |
| | Creu llais uwch ar gyfer tai ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | | | | | | | Cysylltiad â GCCTRh |

**Cynllun Gwaith ar gyfer 2021-22**

**Cynhwyswyd y rhain fel ymateb i Covid a materion a fydd angen sylw at y dyfodol**

| Tasg | Diweddariad |
|---|---|
| Casglu gwybodaeth o ymateb 'Everyone In' COVID 19, i ddeall y gwersi a ddysgwyd a gwneud argymhellion o ran gwelliannau. | Trosolwg, methodoleg wedi'i chytuno<br>Dechreuodd gwaith ymchwil a chyfweliadau yn Ebrill 2020 |
| Mapio taith y cwsmer a chofnodi'r stori y tu ôl i'r ystadegau, gan sicrhau bod adborth gan gwsmeriaid a data o ran bodlonrwydd yn cael eu gwreiddio o fewn monitro perfformiad. | Trosolwg, methodoleg wedi'i chytuno |
| Ymgysylltu â'r holl bartneriaid o ran Cymdeithasau Tai ac Adrannau Tai Awdurdodau Lleol gyda Thimau Digartrefedd a Gwasanaethau Cymorth i ddatblygu dealltwriaeth a rennir ac arfer gorau o ran Rhoi Terfyn ar Droi Pobl Allan i Ddigartrefedd. | Trosolwg, methodoleg wedi'i chytuno |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **7 Mehefin, 2021** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2021/22

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
   - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
   - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
   - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
   - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2021/22 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2020

| |
|---|
| lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2021/22 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2021→ Medi, 2021**
**[Fersiwn ddyddiedig 27/05/21]**

**Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd**
Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mehefin, 2021 (07/06/21)** | **Mehefin, 2021 (15/06/21)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2020/21 | Diweddariad gan Brif Weithredwr BIPBC |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2020/21 |
| Data Digartrefedd y Gwasanaeth Tai (Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, 08/03/2021) | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Gorffennaf, 2021 (08/07/21)** | **Mehefin, 2021 (28/06/2021)** |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21 | Adroddiad Blynyddol 2020-21 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2020/21 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | |
| | |
| **Medi, 2021 (13/09/21)** | **Medi, 2021 (20/09/21)** |
| Monitro Perfformiad Ch1: 2021/22 (i'w gadarnhau) | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Adroddiad Cynnydd Chwarter 1 2021-22 Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru (i'w gadarnhau) |
| Monitro Cynnydd: Cynllun Datblygu Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Hydref, 2021 (14/10/21)** | **Hydref, 2021 (19/10/21)** |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 | Craffu ar Bartneriaethau |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22 | |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| | |
| **Tachwedd, 2021 (01/11/21)- Cyllideb 2022/23** | **Tachwedd, 2021 (09/11/21)** |
| Cynigion Drafft Cychwynnol Cyllideb 2022/23 | Adroddiad Blynyddol – Partneriaeth Diogelwch Cymunedol |
| Cynllun Ymgynghori Cyhoeddus ar gyfer Cyllideb 2022/23 | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus- Trefniadau Llywodraethu |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 | Adroddiad Cynnydd Chwarter 2 (2021-22) Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22 |
| **Tachwedd, 2021 (16/11/21)- Ch.2** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2021/22 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| | |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu:**

**Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu**

**Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardaloedd Seiriol / Amlwch**

**Cynllun Rheoli Asedau / Man-ddaliadau**

**Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2022/23**

**Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2022/23**

**Cynlluniau Adfer (Covid-19)**

**Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9)- 2020/21**